



Gweinyddiaeth
CYFIAWNDER

Ministry of
JUSTICE


Gweddnewid sut mae beiliaid yn gweithredu

Sut y byddwn yn darparu mwy o amddiffyniad rhag beiliaid ymosodol ac annog mwy o hyblygrwydd pan fydd beiliaid yn casglu dyledion

Papur Ymgynghori CP 5/2012

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 17 Chwefror 2012

Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 14 Mai 2012





**Gweinyddiaeth
CYFIAWNDER**
Ministry of
JUSTICE

Gweddnewid Sut Mae Beiliaid yn Gweithredu

Sut y byddwn yn darparu mwy o amddiffyniad rhag beiliaid ymosodol ac annog mwy o hyblygrwydd pan fydd beiliaid yn casglu dyledion

Papur ymgynghori wedi'i gynhyrchu gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae ar gael hefyd ar y wefan Cyfiawnder yn www.justice.gov.uk

Gwybodaeth am yr ymgynghoriad hwn

- At:** Anelir yr ymgynghoriad hwn at y cyhoedd, y diwydiant gorfodi, y proffesiwn cyfreithiol, y farnwriaeth, y sector cynghori sy'n gysylltiedig â gorfodi a phawb sydd â diddordeb yn y maes hwn yng Nghymru a Lloegr.
- Hyd:** O 17 Chwefror 2012 tan 14 Mai 2012
- Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau am y papur mewn fformat arall) at:** Judith Evers
Ministry of Justice
Postpoint 4.23, 102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ
Ffôn: 020 3334 3182
Ffacs: 0870 739 4268
E-bost:
EnforcementReform.TCE@justice.gsi.gov.uk
- Sut i ymateb:** Ymatebwch ar-lein yn www.justice.gov.uk erbyn 14 Mai 2012

Neu anfonwch eich ymateb erbyn 14 Mai 2012 at:
E-bost:
EnforcementReform.TCE@justice.gsi.gov.uk

neu drwy'r post at:
Judith Evers, Ministry of Justice, Postpoint 4.23,
102 Petty France, Llundain SW1H 9AJ
neu Ffacsio: 0870 739 4268
- Fersiwn Cymraeg:** Mae fersiwn Cymraeg o'r papur ymgynghori hwn ar gael yn www.justice.gov.uk
- Papur ymateb:** Disgwylir y bydd ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2012 yn: www.justice.gov.uk

Contents

Rhagair	3
1 Cyflwyniad	5
2 Y Cefndir	9
3 Opsiynau nad ydynt yn cael eu Rheoleiddio	12
4 Egluro'r gyfraith	13
5 Costau Gwasanaethau sy'n Gysylltiedig â Gorfodi	30
6 Trefn Reoleiddio	35
7 Gofynion Cymhwysedd	38
8 Camau Unioni a Delio â Chwynion	40
9 Gorchymyn Awdurdodaeth y Llys Sirol a'r Uchel Lys 1991	43
10 Asesu Effaith	45
11 Y Camau Nesaf	46
Holiadur	47
Amdanoch chi	52
Manylion cysylltu/Sut i ymateb	53
Y meini prawf ymgynghori	54

Rhagair



Mae'r angen am ddull ymarferol sy'n gweithio o orfodi talu dyledion a dirwyon yn un o'r ffeithiau bywyd annymunol hynny ond eto rhywbeth sy'n angenrheidiol. Heb sicrwydd ei fod yn bosibl cael arian yn ôl oddi wrth ddyledwyr sy'n anfodlon talu, a hynny drwy ddull priodol, byddai'n ormod o risg i gredydwyr roi benthyg. Heb orfodaeth brydlon ac effeithiol i sicrhau bod troseddwyr yn talu'u dirwyon yn y pen draw, byddai awdurdod y llysoedd a hyder y cyhoedd yn eu heffeithiolrwydd yn lleihau.

Felly, mae beilïaid yn un o'r pethau sy'n atgyfnerthu ein system cyfiawnder a'n heconomi. Mae ganddynt rôl bwysig yn sicrhau bod arian yn cael ei dalu'n ôl, ac yn helpu i greu'r amodau a fydd yn galluogi economi marchnad a rheolaeth y gyfraith i ffynnu.

Felly, gresyn o beth yw gweld, pan ofynnir iddynt, nad oes gan lawer o aelodau'r cyhoedd feddwl mawr o feilïaid. Y rheswm am hyn yw bod lleiafrif o feilïaid, ochr yn ochr â gweithgarwch gorfodi cyfrifol llawer o'r rheini sy'n gweithio mewn rôl sy'n aml yn anodd, wedi defnyddio ymddygiad ymosodol a bygythiol. Wrth gwrs, mae'n rhaid bod beilïaid yn gallu gorfodi'r gyfraith. Ond nid yw'n iawn fod pobl fregus mewn rhai amgylchiadau wedi cael eu bygwth neu eu cam-drin gan dactegau ymosodol.

Mae'r papur hwn yn nodi sut mae'r Llywodraeth yn bwriadu mynd i'r afael â gweithgarwch ymosodol a diangen gan feilïaid, heb amharu ar waith gorfodi effeithiol a chymesur. Mae'n cynnwys cynigion i ddiweddarau carrifoedd o gyfreithiau hynafol sydd ar hyn o bryd yn gwneud mwy i lesteirio yn hytrach na helpu beilïaid cyfrifol.

Yr hyn y mae dyledwyr, credydwyr a beilïaid ei angen ydy system gymesur, effeithiol a syml, gyda strwythur costau teg a thryloyw. Mae angen i'r system gyfuno pwerau call i ddelio ag osgoi bwriadol gan rai dyledwyr, â gofynion cryfach am atebolrwydd a phroffesiynoldeb yn y diwydiant.

Ar hyn o bryd, ceir diffyg eglurder sy'n tanseilio enw da ymarferwyr cyfrifol ac anghyfrifol fel ei gilydd. Mae'n hollbwysig fod pob beili'n deall yn iawn y fframwaith gorfodi y maent yn gweithio o'i fewn ac wedi'u paratoi ac yn meddu ar yr wybodaeth ofynnol cyn cnocio ar ddrysau. Ar hyn o bryd, does dim gofynion cymhwysedd penodol. Mae hyn yn fwlich sylweddol.

Mae'r Llywodraeth eisoes wedi cyhoeddi Safonau Cenedlaethol diwygiedig ar gyfer Asiantau Gorfodi. Mae'r cynnig yn adeiladu ar y safonau hyn drwy drawsnewid elfennau yn y cod gwirfoddol yn drefn sy'n gyfreithiol rwydol.

Nodwedd y pecyn cynigion hwn yw cydbwysedd. Mae'n ceisio parchu hawliau'r credydwr a rhyddid y dyledwr, sy'n cystadlu â'i gilydd. Y rheswm pam mae gorfodi effeithiol a chymesur yn bwysig yn y pen draw yw oherwydd efallai y bydd un ohonom ni, ryw ddiwrnod, angen cael ein diogelu rhag beiliaid ymosodol neu angen cael arian yn ôl sy'n ddyledus i ni yn gyfreithiol.

Rydym yn croesawu eich barn ac yn annog pawb sydd â diddordeb i gyfrannu.

A handwritten signature in black ink, reading 'Jonathan Djanogly'. The signature is written in a cursive, flowing style with a large initial 'J'.

Jonathan Djanogly

Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder

1 Cyflwyniad

1. Mae'r papur ymgynghori hwn yn disgrifio'r cynigion ar gyfer gweddnewid sut mae beiliaid yn gweithredu a darparu mwy o amddiffyniad rhag beiliaid ymosodol. Nod y cynigion yw symleiddio ac egluro rhagor ar y broses, gwella atebolrwydd asiantau gorfodi a mynd i'r afael â gweithgarwch gorfodi diangen neu amhriodol.
2. Anelir yr ymgynghoriad at y cyhoedd, y diwydiant gorfodi, y proffesiwn cyfreithiol, y farnwriaeth, y sector cynghori sy'n gysylltiedig â gorfodi a phawb sydd â diddordeb yn y maes hwn yng Nghymru a Lloegr.

Camau gorfodi

3. Mae'n rhaid cymryd camau gorfodi pan na fydd dyledwr yn talu dyled neu pan na fydd yn negodi trefn resymol o dalu drwy randaliadau gyda'r credydwr. Mae angen inni sicrhau bod credydwr yn cael yr arian y mae ganddynt hawl i'w dderbyn. Dylai dyledwr gael eu hamddiffyn rhag trefn orthrymus pan gymerir camau gorfodi yn eu herbyn. Ond ni ddylent allu osgoi eu cyfrifoldebau ariannol drwy anwybyddu neu beidio â thalu.
4. Pan na fydd dyledwr yn talu'u dyledion gallai'r credydwr eu hunain wynebu anawsterau ariannol. Oni cheir gorfodaeth brydlon ac effeithiol, mae awdurdod y llysoedd, effeithiolrwydd cosbau a hyder y cyhoedd yn y system cyfiawnder i gyd yn cael eu tanseilio. Mae gan credydwr hawl i gasglu'r hyn sy'n ddyledus iddynt ac mae ganddynt sawl opsiwn ar gyfer gorfodi, yn dibynnu ar y math o ddyled.

Gweithredu gan feiliaid

5. Fel arfer bydd credydwr yn cyfarwyddo beiliaid pan nad oes opsiwn gorfodi arall ar gael. Efallai nad yw'r dyledwr wedi darparu digon o wybodaeth er mwyn i'r credydwr ystyried dulliau eraill neu mae'r dyledwr wedi anwybyddu'n llwyr yr holl nodiadau atgoffa y mae wedi'u derbyn.
6. Fel arfer mae credydwr yn ymgymryd â nifer o gamau casglu dyledion cyn penderfynu rhoi cychwyn ar gamau gorfodi ffurfiol. Gallai hyn gynnwys:
 - anfon anfoneb;
 - anfon nodyn atgoffa;
 - anfon llythyr cyn cymryd camau cyfreithiol; a
 - cychwyn camau cyfreithiol.
7. Yn y sefyllfaoedd hyn, mae'r dyledwr wedi cael pedwar cyfle i dalu'r ddyled heb orfod mynd i'r cam gorfodi.
8. Os yw'r dyledwr yn dal heb dalu, neu heb wneud trefniadau i dalu, gellir cyfarwyddo beili i gasglu'r ddyled a'i gostau. Mae hyn yn cael ei wneud drwy i'r

beili atafaelu nwyddau'r dyledwr a'u gwerthu a defnyddio'r arian a gaiff amdanynt i dalu'r ddyled a'r costau.

9. Mae'r math hwn o orfodi'n cael ei ddefnyddio ar gyfer dyledion sifil a throreddol. Mae ar gael ar gyfer dyledion llys, dyledion treth a dyledion awdurdod lleol, yn ogystal â chael arian yn ôl ar gyfer yr unigolyn preifat.

Gweithredu ymosodol gan feiliaid

10. Mae gweithredu gan feiliaid yn ôl ei natur yn ymwithiol. Mae'n rhaid i feiliaid fod yn bendant ac yn gadarn os ydynt i fod yn effeithiol. Y mae tystiolaeth anecdotaidd ar gael sy'n awgrymu bod rhai beiliaid yn tueddu i fod yn ymosodol er mwyn bod yn effeithiol. Dyma'r elfennau y mae angen i ni roi sylw iddynt. Mae'r papur hwn yn disgrifio'r gweithgareddau yr ydym ni'n eu hystyried yn ymosodol. Mae'r ymddygiad annerbyniol hwn yn cynnwys:

- **Camgyfleu eu hawdurdod cyfreithlon**
 - bygwth defnyddio grym.
 - mynd i mewn yn amhriodol i eiddo.
 - bygwth atafaelu nwyddau nad oes ganddynt hawl eu cymryd.
 - atafaelu nwyddau nad yw eu gwerth yn gymesur â'r ddyled.
- **Codi ffioedd gormodol**
 - codi am "rith" ymweliadau.
 - codi am weithgareddau nad ydynt wedi cael eu cyflawni.
- **Ymddygiad bygythiol**
 - defnyddio grym yn ddiangen.
 - gwthio rhywun o'r neilltu i fynd i mewn drwy'r drws.
 - bygwth carchar.

Pa amddiffyniad y gellir ei ddarparu yn erbyn gweithredu ymosodol gan feiliaid?

11. Mae'r Llywodraeth yn credu:
 - **Y gellir mynd i'r afael â cham-gyfleu eu hawdurdod cyfreithiol drwy:**
 - weithredu Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 a fydd yn rhoi rhagor o eglurder ar y gyfraith; a
 - sicrhau bod pob parti'n gwybod am eu hawliau a'u cyfrifoldebau.
 - **Gellir mynd i'r afael â'r ffioedd gormodol a godir drwy gael:**
 - strwythur ffioedd clir a thryloyw sy'n nodi'r costau y gall y beili eu hadennill yn unol â Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007; a
 - sicrhau bod y strwythur costau ar gael i'r cyhoedd a'i fod yn hawdd ei ddeall.
 - **Gellir mynd i'r afael ag ymddygiad bygythiol drwy gael:**

- trefn reoleiddio yn unol â Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 ac a gefnogir gan:
 - hyfforddiant ar gyfer beiliaid; a
 - phroses gwyno.

12. Mae'r papur hwn yn nodi'r angen i gydbwyso'r holl amcanion canlynol:
- Darparu mwy o amddiffyniad rhag beiliaid ymosodol ond gan nodi ar yr un pryd yr angen am orfodaeth effeithiol.
 - Trefn deg, dryloyw a chynaliadwy ar gyfer costau sy'n darparu cydnabyddiaeth ariannol ddigonol.
 - Lleihau rheoleiddio gormodol ar fusnesau ond gan sicrhau bod pobl fregus yn cael eu hamddiffyn yn effeithiol.
13. Mae pennod 3 yn nodi'r opsiynau posibl nad ydynt yn rhai rheoleiddio. Mae penodau 4 i 8 yn disgrifio cynlluniau'r Llywodraeth i weddnewid y ffordd y mae beiliaid yn gweithredu. Maent yn ymdrin â'r prif gynigion gan gynnwys y gyfraith, y costau y gellir eu codi, rheoleiddio, hyfforddiant a chymau unioni (*remedies*) a chwynion. Prif nodwedd ein cynigion yw cydbwysedd. Rydym am sicrhau y bydd gan feili yr holl gyfryngau angenrheidiol i gyflawni'r gwaith gorfodi'n effeithiol a'i fod yn cael ei dalu'n ddigonol ond gan roi sicrwydd hefyd i'r dyledwr fod y beili wedi'i hyfforddi'n briodol ac wedi'i awdurdodi'n briodol i wneud y cyfryw waith a bod camau unioni ar gael pan wneir camgymeriadau.
14. Mae pennod 9 yn gofyn am farn gynnar ar newidiadau posibl yn y dyfodol i gynnig mwy o ddewis i gredydwyr yn awdurdodaeth camau gorfodi gan y llys sirol.
15. Byddwn yn ystyried y materion hyn yn fanylach yn y papur hwn ac yn ystyried y cynigion ynghylch sut y gellir mynd i'r afael â'r rhain. Er bod croeso i chi roi sylwadau fel y mynnwch ar y Rheoliadau Drafft ar gyfer Cymryd Rheolaeth Dros Nwyddau, mae'r papur yn cynnwys cwestiynau penodol y byddem yn falch petaech yn eu hystyried.
16. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal yn unol â'r Cod Ymarfer ar Ymgynghori ac mae'n dod o fewn cwmpas y Cod. Mae'r meini prawf ymgynghori, a restrir ar dudalen 58, wedi cael eu dilyn.
17. Mae'r Asesiad o Effaith, sy'n cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r ddogfen hon, yn dangos mai asiantau gorfodi, busnesau gorfodaeth a dyledwyr fydd y rhai yr effeithir fwyaf arnynt. Croesawir yn fawr sylwadau ar yr Asesiad o'r Effaith gan gynnwys cwblhau'r holiadur sydd wedi'i atodi.
18. Anfonir copïau o'r ddogfen ymgynghori at y canlynol:
- Advice UK
- Age Concern
- Cymdeithas y Barnwyr Rhanbarth
- Cymdeithas Bancio Prydain

Cymdeithas Parcio Prydain
Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth
Cymdeithas y Plant
Yr Eglwys yn Gweithredu yn erbyn Tlodi
Cymdeithas Defnyddwyr y Llysoedd Sifil
Y Gwasanaeth Cyngor Ar Bopeth
Cymdeithas Gorfodaeth Sifil
Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil
Y Comisiwn dros Weinyddu Lleol yn Lloegr
Cymdeithas Gwasanaethau Credyd
Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Droseddol
Grŵp Diwygio Cyfraith Gorfodaeth
Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Cymdeithas Cyllid a Phrydlesu
Cyngor Barnwyr Ei Mawrhydi
Cymdeithas Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys
Comisiynydd Gwybodaeth
Sefydliad Rheoli Credyd
Sefydliad y Cynghorwyr Ariannol
Y Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw
Y Bwrdd Astudiaethau Barnwrol
Fforwm Gorfodaeth Sifil Awdurdodau Lleol
Cymdeithas Llywodraeth Leol
Grŵp Gweithredu Modurwyr Llundain
MIND
Cyngor Ariannol
Gwasanaeth Llys Gogledd Iwerddon
Phoenix Consulting
Gweithrediaeth yr Alban
Awdurdod y Diwydiant Diogelwch
Uwch Feistr
Transport for London
Cynulliad Cymru
Comisiwn Cenedlaethol y Menywod
Ymddiriedolaeth Zacchaeus 2000

2 Y Cefndir

19. Ar hyn o bryd, mae'r gyfraith sy'n ymwneud â gorfodi drwy atafaelu a gwerthu nwyddau'n gymhleth, yn aneglur ac yn ddryslyd. Mae'r gyfraith wedi'i gynnwys mewn sawl statud, is-ddeddfwriaeth a chyfraith gwlad ac mae'r iaith yn hen ffasiwn. Y mae hefyd fathau gwahanol o feiliaid a swyddogion gorfodi yn dibynnu ar y math o ddyled sydd i'w hadennill. Gall y dryswch hwn olygu bod beiliaid a swyddogion gorfodi yn cam-gyfleu eu hawdurdod cyfreithiol.
20. Nid yw Rhan 3 o Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 (Deddf TLIG) wedi cael ei rhoi ar waith eto a bydd yn cyfuno'r gyfraith bresennol sy'n ymwneud ag atafaelu a gwerthu nwyddau ar gyfer y rhan fwyaf o ddibenion. Mae hefyd yn disodli'r gyfraith bresennol ar atafaelu am rent, gyda threfn ddiwygiedig ar gyfer adennill ôl-ddyledion rhent yn y sector eiddo masnachol yn unig; diddymu'r hawl cyfraith gwlad i atafaelu am ôl-ddyledion rhent. Mae rhan 3 o'r Ddeddf TLIG hefyd yn disgrifio beiliaid a swyddogion gorfodi fel asiantau gorfodi. Mae Rhan 3 o'r Ddeddf TLIG ar gael yn Atodiad A er gwybodaeth.
21. Mae Atodlen 12 i'r Ddeddf TLIG yn nodi'r drefn newydd i'w dilyn gan asiantau gorfodi wrth atafaelu nwyddau, a'r drefn i'w galw'n cymryd rheolaeth dros nwyddau. Mae'r Atodlen yn rhagnodi'r broses gyfan i'w dilyn gan asiantau gorfodi pan fyddant yn cymryd rheolaeth dros nwyddau a'u gwerthu, o gyflwyno rhybudd, i gymryd rheolaeth dros y nwyddau (gan gynnwys pa nwyddau y gellir eu cymryd), pwerau mynediad, gofalu am y nwyddau a gymerir, gwerthu'r nwyddau a gymerir a dosbarthu'r arian a geir wrth eu gwerthu. Mae Atodlen 12 ar gael yn Atodiad B er gwybodaeth.
22. Mae'r papur hwn yn cynnwys yr Atodiadau canlynol sy'n nodi manylion llawn yr holl gynigion:
 - Atodiad C Rheoliadau Drafft ar gyfer Cymryd Rheolaeth dros Nwyddau
 - Atodiad D Newidiadau sy'n cael eu cynnig i'r Ddeddf TLIG
 - Atodiad E Rheoliadau pellach sy'n ofynnol ar gyfer newidiadau i'r Ddeddf TLIG
 - Atodiad F Rhybuddion enghreifftiol ar gyfer y dyledwr
 - Atodiad G Y Strwythur Costau sy'n cael ei gynnig
 - Atodiad H Cynnig ar gyfer Cyngor Beiliaid ac Asiantau Gorfodi
 - Atodiad I Cynnig ar gyfer rheoleiddio beiliaid a chwmnïau parcio preifat
 - Atodiad J Canlyniadau Dysgu a meini prawf asesu ar gyfer hyfforddiant sylfaenol i asiantau gorfodiCofiwch mai ar ffurf drafft y mae'r holl ddogfennau hyn (nid ydynt yn ddogfennau cyfreithiol) ac efallai y byddant yn cael eu newid a'u diwygio yn dilyn yr ymarfer ymgynghori ac ar ôl ystyried yr atebion i'r ymarfer wedyn.

23. Bydd Pennod 4 o'r papur hwn yn edrych ar ddarparu rhagor o eglurder ar y gyfraith er mwyn sicrhau bod y broses yn glir ac yn dryloyw ond heb fod yn rhy feichus ar y partïon. Pwrpas y Rheoliadau Cymryd Rheolaeth Dros Nwyddau yw nodi'n glir fanylion y broses ragnodedig i'w dilyn gan asiant gorfodi.
24. Mae'r broses ymgynghori hon yn cynnig y dylai unrhyw drefn newydd i gymryd rheolaeth dros nwyddau gan asiantau gorfodi geisio:
- Esbonio a symleiddio'r gyfraith i fynd i'r afael â phroblem o asiantau gorfodi'n cam-gyfleu eu pwerau;
 - Uno'r gyfraith i fynd i'r afael â'r amrywiaeth gymhleth sydd ar gael ar hyn o bryd o ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth a chyfraith gwlad, a all achosi dryswch;
 - Gwneud y gyfraith yn gyson â deddfwriaeth Hawliau Dynol;
 - Cydbwysu hawliau a chyfrifoldebau credydwyr a dyledwyr sydd weithiau'n cystadlu â'i gilydd;
 - Sefydlu ffyrdd llai ymwithiol o gymryd rheolaeth dros nwyddau; a
 - Cadarnhau hawliau a chyfrifoldebau dyledwyr, credydwyr ac asiantau gorfodi pan mae'n rhaid gorfodi dyledion.
25. Mae'n bwysig sicrhau bod rhagofalon digonol ar gael ar gyfer dyledwyr ac asiantau gorfodi ond gan sicrhau gorfodaeth effeithiol a chymesur yr un pryd. Mae Pennod 4 hefyd yn delio â newidiadau posibl i'r Ddeddf TLIG a rheoliadau eraill y byddai'n rhaid eu cael a rhybuddion enghreifftiol a fydd yn sicrhau bod dyledwyr yn gwbl ymwybodol o ganlyniadau eu gweithredoedd neu eu diffyg gweithredu.
26. Mae'r drefn bresennol o ran costau ar gyfer asiantau gorfodi'n gymhleth. Mae strwythur costau gwahanol ar gyfer pob pŵer gorfodi. Ceir rhai darpariaethau deddfwriaethol, megis y rheini sy'n ymwneud â throeddau traffig ffyrdd. Ceir darpariaethau eraill dim ond mewn trefniadau contractiol sydd wedi'u llunio rhwng cwmni'r asiant gorfodi a'i gleientiaid. Mae diffyg eglurder hefyd yn y strwythurau costau eu hunain, maent yn anodd eu dehongli weithiau ac nid ydynt yn darparu cydnabyddiaeth ariannol ddigonol ar gyfer pob agwedd ar waith gorfodi. Gyda'i gilydd mae'r ffactorau hyn yn golygu bod y broses taliadau ar hyn o bryd yn agored i gael ei chamddefnyddio.
27. Mae paragraff 62 o Atodlen 12 i'r Ddeddf TLIG yn darparu ar gyfer rheoliadau i ddarparu ar gyfer adennill symiau oddi wrth y dyledwr parthed costau gwasanaethau sy'n gysylltiedig â gorfodaeth. Bydd Pennod 5 y papur hwn yn ystyried strwythur costau newydd. Y cynnig yw y dylai'r strwythur newydd fod yn fwy cydnaws â chost y gweithgarwch sy'n cael ei gyflawni gan yr asiant gorfodi, newid y cymhellion i annog ymddygiad gorfodi mwy priodol a bod yn gliriach ac yn decach â dyledwyr ac asiantau gorfodi.
28. Bydd rhagor o eglurder ynglŷn â'r gyfraith a strwythur costau clir a thryloyw yn cyfrannu gryn dipyn at fynd i'r afael ag ymddygiad beilliaid. Ond mae'n rhaid sicrhau o hyd bod camau unioni digonol ar gael i ddyledwyr ar gyfer delio â'r rhai sy'n camymddwyn.

29. Mae'r strwythur rheoleiddio presennol ar gyfer beiliaid yng Nghymru a Lloegr yn dameidiog iawn. Er bod rhai elfennau yn y diwydiant yn cael eu rheoleiddio'n eithaf llym, mae eraill dim ond yn cael eu rheoleiddio'n anffurfiol drwy gymdeithasau masnach. Y mae dadl gref dros gael un strwythur i reoleiddio'r diwydiant, a fyddai'n codi safonau proffesiynoldeb yn y diwydiant a rhoi mwy o hyder i'r cyhoedd ynddo. Bydd Pennod 6 y papur hwn yn ystyried ac yn nodi'r cynigion ar gyfer rheoleiddio gwell er mwyn cyflawni'r nod hwn.
30. Ar hyn o bryd does dim gofynion hyfforddi penodol ar gyfer beiliaid. Mae rhai busnesau wedi cyflwyno'u trefn hyfforddi eu hunain i wneud yn siŵr bod beiliaid yn ymwobodol o'u cyfrifoldebau. Bydd Pennod 7 y papur hwn yn trafod rhaglen hyfforddi arfaethedig a fydd yn sail i'r cynnig ar gyfer rheoleiddio. Bydd y cynigion hyn yn sicrhau gweithlu atebol a chymwys. Mae'n bwysig fod pob asiant gorfodi yn deall yn iawn beth mae busnes gorfodi yn ei olygu a bod beiliaid yn cael eu paratoi ac yn cael yr wybodaeth ofynnol cyn cychwyn gweithredu fel beili.
31. Mae dryswch ynghylch pwy ddylai ddelio â chwynion am feiliaid a sut y dylid delio â'r cwynion hynny. Bydd darparu rhagor o eglurder am y gyfraith a datblygu trefn glir a thryloyw ar gyfer costau yn mynd i'r afael â rhai o'r cwynion a geir am ymddygiad beiliaid. Bydd Pennod 8 y papur hwn yn trafod y camau unioni (*remedies*) a fydd ar gael pan fydd beili'n gweithredu'n anghyfreithlon neu'n amhriodol ac yn nodi'r opsiynau a fydd ar gael i'r dyledwr.
32. Er mwyn cael mwy o hyblygrwydd gyda chasgliadau beiliaid, mae Pennod 9 y papur hwn yn gofyn am sylwadau ynghylch a ddylai credydwyr gael mwy o ddewis am sut i orfodi eu dyledion dyfarniad hawliadau bach drwy gyfrwng gwarant neu writ.

3 Opsiynau nad ydynt yn cael eu Rheoleiddio

33. Cyhoeddodd y Llywodraeth Safonau Cenedlaethol diwygiedig ar gyfer Asiantau Gorfodi ar 13 Ionawr 2012. Cyhoeddwyd y rhain yn rhannol i atgoffa credydwyr ac asiantau gorfodi am eu cyfrifoldebau. Cawsant eu datblygu gyda chynrychiolwyr cyrff masnach y diwydiant gorfodi. Rydym yn croesawu eich barn am gynnwys y Safonau Cenedlaethol.

C1 Ydych chi'n cytuno â chynnwys y Safonau Cenedlaethol? Os nad ydych chi, a fydddech chi'n darparu cynigion i'w cynnwys neu ddadl yn erbyn eu cynnwys

34. Mae'r Safonau Cenedlaethol diwygiedig wedi cael eu datblygu i ystyried rhai o'r problemau sydd wedi cael eu pennu. Cod gwirfoddol yw'r Safonau Cenedlaethol. Mae Pennod 4 Egluro'r gyfraith yn cynnwys rhai elfennau o'r Safonau Cenedlaethol a fyddai'n eu gwneud yn gyfreithiol rwymol gan gynnwys:

- Amseroedd ac oriau;
- Nwyddau sydd wedi'u heithrio;
- Diogelu plant (o dan 16);
- Hysbysiadau/rhybuddion a llythyrau rhybuddio;
- Ardystio.

C2 Ydych chi'n credu bod y gyfraith bresennol a'r Safonau Cenedlaethol diwygiedig ar gyfer Asiantau Gorfodi'n ddigon i ddatrys y problemau yr ydym wedi'u nodi neu a ydych chi'n teimlo bod angen rhagor o ymyrraeth o hyd gan y Llywodraeth fel sy'n cael ei nodi yng ngweddill y papur?

35. Ochr yn ochr â'r Safonau Cenedlaethol diwygiedig mae'r wybodaeth sydd ar gael ar DirectGov wedi'i diweddarau i ddarparu arweiniad ar feiliaid i ddyledwyr a chredydwyr. Mae'r arweiniad hwn hefyd yn rhoi gwybodaeth am ble y gall pobl fynd am gymorth os ydynt yn teimlo bod beili wedi ymddwyn yn annerbyniol tuag atynt.

C3 Ydych chi'n teimlo bod bylchau yn yr ystod gwybodaeth sydd ar gael ar DirectGov? Os ydych chi, a fydddech gystal â darparu cynigion i'w cynnwys.

4 Egluro'r gyfraith

Camau gorfodi a'r pŵer i ddefnyddio grym rhesymol

36. Mae gan gredydwr cyfreithlon yr hawl i orfodi eu dyledion nad ydynt wedi cael eu talu. Yn yr un modd, dylai dyledwyr gael eu diogelu rhag trefn orthrymus pan gymerir camau gorfodi yn eu herbyn. Yr her yw cael y cydbwysedd iawn rhwng yr hawliau a'r rhyddid hwn. Mae pwerau mynediad a'r pŵer i ddefnyddio grym rhesymol yn ddwy elfen hollbwysig y mae'n rhaid eu hystyried er mwyn cael y cydbwysedd iawn.

Grym yn erbyn unigolyn

37. Mae'r Llywodraeth yn credu na ddylai asiant gorfodi ddefnyddio grym yn erbyn unrhyw unigolyn wrth gymryd rheolaeth dros nwyddau a'u gwerthu er mwyn casglu dyledion drwy'r Ddeddf TLIG. Mae hawliau'r dyledwr yn bwysig iawn; does dim byd yn deg nac yn gymesur am ddefnyddio grym yn erbyn unigolyn. Ac ni ddylai grym gael ei ganiatáu ychwaith dim ond ar sail effeithiolrwydd.
38. Mae paragraffau 24(2) a 31(5) o Atodlen 12 i'r Ddeddf TLIG yn cynnwys pwerau gwneud rheoliadau y gellid eu defnyddio i ymestyn pŵer grym rhesymol i gynnwys defnyddio grym yn erbyn unigolion. Er mwyn darparu rhagor o amddiffyniad rhag beiliaid ymosodol, mae'r Llywodraeth yn bwriadu diwygio'r darpariaethau hyn drwy gael gwared â phwerau gwneud rheoliadau o'r fath a fydd yn sicrhau na fydd asiantau gorfodi byth yn gallu defnyddio'r pŵer i ddefnyddio grym yn erbyn unigolion. Ceir drafft o'r diwygiad arfaethedig yn Atodiad D.

C4 Ydych chi'n cytuno na ddylai asiantau gorfodi allu defnyddio grym yn erbyn unigolyn? Os nad ydych chi, esboniwch pam, gan ddarparu dadl i gefnogi hynny a thystiolaeth ynghylch pryd y byddai'n ddefnyddiol.

Gorfodi Mynediad

39. Does dim byd yn deg ychwaith am ganiatáu i'r dyledwr osgoi ei gyfrifoldebau ariannol drwy gloi ei ddrws a gwrthod ei agor. Mae'n bwysig mynd i'r afael â diffyg cydymffurfio a/neu osgoi bwriadol gan y dyledwr. Ein bwriad yw parhau i ganiatáu i asiantau gorfodi ddefnyddio grym rhesymol i gael mynediad i eiddo ond gan sicrhau y bydd hynny'n cael ei ddefnyddio dim ond pan fydd yn gwbl angenrheidiol. Mae'r darpariaethau hyn yn ategu hawl y credydwr i adennill unrhyw arian sy'n ddyledus iddo.
40. Fel arfer mae grym rhesymol yn golygu defnyddio saer cloeon i ddrilio clo er mwyn gadael i asiant gorfodi gael mynediad i'r eiddo. Os yw'r asiant gorfodi wedi defnyddio grym, bydd hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod yr eiddo'n cael ei adael mewn cyflwr diogel.

41. Mae'r Ddeddf TLIG yn gwahaniaethu rhwng pŵer cyffredinol i ddefnyddio grym rhesymol, os oes raid, a'r pwerau y mae angen awdurdod barnwrol ymlaen llaw ar eu cyfer. Lle mae'r Ddeddf TLIG yn darparu ar gyfer pŵer cyffredinol i ddefnyddio grym rhesymol, mae nifer o ragofalon wedi'u hymgorffori drwy gyfyngiadau ar y math o adeilad a'r math o ddyled sy'n cael ei hadennill. Pan fydd angen awdurdod barnwrol ymlaen llaw, mae'r rheoliadau'n darparu rhagofalon drwy amodau rhagnodedig.
42. Wrth ystyried y rheoliadau sy'n ymwneud â defnyddio grym rhesymol, mae'n bwysig cydnabod y gwahaniaeth rhwng mynediad ac ailfynediad. Mae mynediad yn digwydd pan fydd asiantau gorfodi yn mynd i mewn i eiddo i chwilio am nwyddau a chymryd rheolaeth drostynt. Mae ailfynediad yn digwydd pan mae asiantau gorfodi eisoes wedi cymryd rheolaeth dros nwyddau'r dyledwr ac yn dychwelyd i'r eiddo i archwilio'r nwyddau neu i'w symud er mwyn eu storio neu eu gwerthu.
43. Dylid nodi hefyd mai pwrpas cytundebau nwyddau dan reolaeth yw caniatáu i'r dyledwr barhau i ddefnyddio'i nwyddau tra mae'n ad-dalu'r ddyled fel y cytunwyd arno gyda'r asiant gorfodi. Teimlir bod y cytundebau hyn yn llai ymwithiol ac yn fath fwy hyblyg o orfodi. Cânt eu trafod yn fwy manwl ym mharagraff 72.

Pŵer cyffredinol i ddefnyddio grym

44. Ein bwriad yw gweithredu paragraffau 17 i 19 o Atodlen 12 i'r Ddeddf TLIG. Mae'n nodi'r pwerau cyffredinol i ddefnyddio grym rhesymol i) i fynd i mewn i eiddo er mwyn gorfodi dirwyon llysoedd ynadon a ii) i fynd i mewn eto i eiddo masnachol er mwyn gorfodi dyledion yr Uchel Lys, llysoedd sirol a Chyllid a Thollau EM os ydynt eisoes wedi cymryd rheolaeth dros nwyddau ac yn bwriadu archwilio'r nwyddau neu eu symud ar gyfer eu storio neu eu gwerthu.

Awdurdod barnwrol ymlaen llaw i ddefnyddio grym - mynediad

45. Ein bwriad yw gweithredu paragraffau 20 i 22 o Atodlen 12 i'r Ddeddf TLIG. Bydd hyn, yn dilyn cais gan yr asiant gorfodi, yn gadael i'r llys godi gwarant a fydd yn rhoi awdurdod i ddefnyddio grym rhesymol, os oes raid, i fynd i mewn i eiddo. I ddarparu mwy o amddiffyniad, rydym yn bwriadu cyflwyno rhagofalon drwy gyfrwng nifer o amodau penodedig a fydd yn cael eu disgrifio yn y rheoliadau. Bydd yr amodau penodedig yn caniatáu i asiantau gorfodi sy'n adennill swm sy'n daladwy dan ddyfarniad Uchel Lys neu lys sirol wneud cais i'r llys am gael defnyddio grym rhesymol wrth fynd i mewn i eiddo masnachol ac unrhyw eiddo arall y mae nwyddau wedi cael eu symud yno'n fwriadol er mwyn osgoi'r camau gorfodi. Bydd asiantau gorfodi sy'n adennill dyledion Cyllid a Thollau EM hefyd yn gallu gwneud cais am warant a fydd yn rhoi'r hawl iddynt ddefnyddio grym rhesymol, os bydd yn rhaid, wrth fynd i mewn i unrhyw eiddo. Ceir y manylion yn Rheoliad 26.

C5 Ydych chi'n cytuno bod angen i'r llys gael ei fodloni am rai amodau cyn y bydd yn rhoi'r hawl i ddefnyddio grym rhesymol i gael mynediad i adeilad ac y dylai'r amodau gael eu pennu mewn rheoliadau? Os na ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda.

C6 Ydych chi'n cytuno â'r amodau penodedig sydd wedi'u gosod? Os nad ydych chi, a wnewch chi ddarparu cynigion i'w cynnwys neu ddadl yn erbyn eu cynnwys.

46. Ond, y mae pryder y bydd colli'r pŵer cyffredinol sydd gan asiantau gorfodi ar hyn o bryd wrth iddynt adennill swm sy'n daladwy o dan ddyfarniad Uchel Lys neu lys sirol i ddefnyddio grym rhesymol wrth fynd i mewn i adeilad masnachol yn tanseilio gorfodaeth effeithiol. Y pryder yw y bydd asiantau gorfodi'n cael eu hatal yn gyson rhag mynd i mewn yn heddychlon i eiddo ac y bydd y nwyddau yn cael eu symud tra'u bod yn disgwyl am awdurdod barnwrol i orfodi mynediad.
47. Mae wedi bod yn destun dadl, lle mae'r credydwr eisoes wedi profi ei achos yn y llys ac wedi cael dyfarniad Uchel Lys neu lys sirol, na ddylid gorfod cael awdurdod barnwrol ymlaen llaw i ddefnyddio grym rhesymol wrth fynd i mewn i eiddo masnachol er mwyn cwblhau'r camau gorfodi. Er mwyn sicrhau gorfodaeth effeithiol, ein bwriad yw diwygio'r Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth, a thrwy hynny alluogi asiantau gorfodi sy'n gorfodi gwarantau llys sirol neu writiau Uchel Lys i barhau i ddefnyddio grym rhesymol, os bydd rhaid. Darperir rhagofalon drwy gyfyngu'r ddarpariaeth i eiddo masnachol; ni fydd darpariaeth ar gyfer eiddo domestig. Ceir drafft o'r diwygiad arfaethedig yn Atodiad D.

C7 Ydych chi'n ystyried y dylai asiant gorfodi sy'n gweithredu dyled Uchel Lys neu lys sirol:

a) orfod gwneud cais i'r llys i ddefnyddio grym rhesymol os bydd rhaid wrth fynd i mewn i unrhyw eiddo busnes; neu

b) a ddylai gael pŵer cyffredinol?

Esboniwch eich rheswm pam, gan ddarparu dadl ategol.

Awdurdod barnwrol ymlaen llaw i ddefnyddio grym - aifynediad

48. Bydd y rheoliadau yn caniatáu i asiantau gorfodi, ni waeth pa fath o ddyled, wneud cais i'r llys i ddefnyddio grym rhesymol, os oes raid, wrth gael aifynediad. Ond, bydd y pŵer yn cael ei gyfyngu i achosion lle:
- mae rheolaeth wedi'i chymryd dros y nwyddau drwy gytundeb nwyddau dan reolaeth a heb eu symud gan yr asiant gorfodi; a
 - lle mae'r dyledwr heb gydymffurfio â thelerau ad-dalu'r cytundeb nwyddau dan reolaeth.

49. Ceir y manylion yn Rheoliad 26.

C8 Ydych chi'n cytuno bod angen i'r llys gael ei fodloni ynghylch rhai amodau cyn y bydd yn rhoi'r hawl i ddefnyddio grym rhesymol i gael ailfynediad i adeilad ac y dylai'r amodau gael eu rhagnodi mewn rheoliadau? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda.

C9 Ydych chi'n cytuno â'r amodau rhagnodedig sydd wedi'u gosod? Os nad ydych chi, a wnewch chi ddarparu cynigion i'w cynnwys neu ddadl yn erbyn eu cynnwys.

50. Y mae pryder y gall y cyfyngiadau ar y pŵer cyffredinol i ddefnyddio grym rhesymol wrth gael ailfynediad yn y Ddeddf TLIG ac yn y rheoliadau atal asiantau gorfodi rhag gwneud cytundebau nwyddau dan reolaeth. Y mae pryder hefyd y gallent ddarparu ffyrdd posibl i'r dyledwr o osgoi'r camau gorfodi. Y canlyniad fydd yr asiant gorfodi yn ffafrio'r opsiwn o symud y nwyddau o'r eiddo. Mae hyn yn cynyddu'r gost i'r dyledwr ac yn arwain at yr hyn a fydd yn cael ei weld fel gweithredu ymosodol gan y beili.
51. Bydd y gofyniad arfaethedig i wneud cais i'r llys am ganiatâd i ddefnyddio grym rhesymol wrth gael ailfynediad yn atal yr asiant gorfodi rhag defnyddio grym rhesymol wrth gael ailfynediad nes y rhoddir y cyfryw ganiatâd. Gall hyn eto arwain at y dyledwr yn symud nwyddau o'r eiddo tra mae cais yn cael ei wneud am awdurdod barnwrol.
52. Os bydd dyledwr yn torri amodau cytundeb nwyddau dan reolaeth, ni ddylid gorfod cael awdurdod barnwrol ymlaen llaw i gwblhau'r camau gorfodi. I sicrhau bod y cydbwysedd cywir gennym, rydym yn bwriadu diwygio'r Ddeddf TLIG i roi pŵer cyffredinol i ddefnyddio grym rhesymol i asiantau gorfodi wrth gael ailfynediad yn yr amgylchiadau cyfyngedig canlynol:
- lle mae rheolaeth wedi'i chymryd dros nwyddau drwy gytundeb nwyddau dan reolaeth a heb eu symud gan yr asiant gorfodi;
 - lle mae'r dyledwr heb gydymffurfio â thelerau ad-dalu'r cytundeb nwyddau dan reolaeth; a
 - lle mae'r dyledwr wedi cael rhybudd o fwriad yr asiant gorfodi i fynd i mewn am yr eildro i'r eiddo i archwilio'r nwyddau neu i'w symud ar gyfer eu storio neu eu gwerthu.
53. Ceir drafft o'r diwygiad arfaethedig yn Atodiad D.
54. I sicrhau bod y dyledwr yn gwbl ymwybodol o'r canlyniadau, mae'r diwygiad drafft yn datgan y bydd yn rhaid i'r asiant gorfodi roi rhybudd i'r dyledwr, cyn defnyddio grym rhesymol, o ran cael ailfynediad i'r eiddo. Bydd manylion y rhybudd yn cael eu pennu yn y rheoliadau. Ceir drafft o'r rheoliadau arfaethedig yn Atodiad E.

C10 Ydych chi'n ystyried y dylai asiant gorfodi:

- a) orfod gwneud cais i'r llys i ddefnyddio grym rhesymol, os bydd rhaid, wrth fynd i mewn am yr eildro i'r eiddo mewn rhai amgylchiadau; neu
 - b) a ddylai gael pŵer cyffredinol?
- Esboniwch eich rheswm pam, gan ddarparu dadl ategol.**

55. Bydd gweddill y bennod hon yn archwilio'r broses o gymryd rheolaeth dros nwyddau gam wrth gam.

Categoriâu dyled

56. Mae'r rheoliadau'n diffinio saith categori dyled gwahanol. Mae'r rhain yn helpu i egluro i ba ddyledion y mae'r rheoliadau'n berthnasol a hefyd i esbonio lle mae'r pŵer i ddefnyddio grym rhesymol, os oes raid, ar gael pan fydd yr asiant gorfodi'n gorfodi dyledion penodol.

Y terfyn amser ar gyfer cymryd rheolaeth dros nwyddau

57. Cydnabyddir na ddylai'r opsiwn i'r asiant gorfodi gymryd rheolaeth dros nwyddau fod ar gael am gyfnod amhenodol gan nad oes fawr o werth mewn camau gorfodi hirfaith i'r credydwr na'r dyledwr. Ond mae'n bwysig fod gan yr asiant gorfodi'r hyblygrwydd i roi mwy o amser i'r dyledwr dalu'r ddyled a'r costau gorfodi. Mae Rheoliad 10 yn darparu ar gyfer terfyn amser o 12 mis y gellir ei ymestyn am 12 mis arall drwy wneud cais i'r llys.
58. Mae'r terfyn amser 12 mis yn cychwyn ar y dyddiad y rhoddir y rhybudd gorfodi (trafodir rhybuddion gorfodi yn fwy manwl ym mharagraff 63). Ond, er mwyn annog rhagor o hyblygrwydd wrth gasglu dyledion efallai y bydd yr asiant gorfodi am wneud trefniant ad-dalu gyda'r dyledwr heb gymryd rheolaeth dros nwyddau. Nid cytundeb nwyddau dan reolaeth mo'r trefniant hwn gan na fydd yr asiant gorfodi wedi cymryd rheolaeth dros nwyddau'r dyledwr. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd y cyfnod 12 mis yn cychwyn ar y dyddiad y bydd y dyledwr yn torri telerau'r trefniant ad-dalu.

C11 Ydych chi'n cytuno â'r terfyn amser 12 mis ar gyfer cymryd rheolaeth dros nwyddau? Os nad ydych chi, esboniwch pam, a darparu cyfnod arall ynghyd â dadl ategol.

59. Mae'r drefn ar gyfer cymryd rheolaeth dros nwyddau'n cychwyn pan fydd yr asiant gorfodi'n derbyn cyfarwyddyd gan y credydwr. Mae'n bwysig nodi bod y dyledwr, erbyn yr amser yma fel y nodir uchod, eisoes wedi cael sawl cyfle i dalu'r ddyled neu i ddod i ryw fath o drefniant gyda'r credydwr. Felly, nid oes gan yr asiant gorfodi'r awdurdod i leihau'r ddyled na thynnu'r camau gweithredu yn ôl; mater i'r credydwr a/neu'r llys yw hynny. Mae gan yr asiant gorfodi ddyletswydd i gasglu'r ddyled ac mae ganddo hawl i hawlio'r costau sy'n cael eu caniatáu ac sy'n cael eu pennu'n ddiweddarach yn y papur hwn ym Mhennod 5.

Cam Gweinyddu / Cydymffurfio

60. Ar hyn o bryd dim ond mewn rhai achosion y mae'n rhaid rhoi gwybod i'r dyledwr am y penderfyniad i ddefnyddio beili. Pan gaiff ei rhoi ar waith, bydd y Ddeddf TLIG yn cynnwys darpariaeth lle bydd yn rhaid hysbysu'r dyledwr o'r penderfyniad sydd wedi'i wneud i gychwyn camau gorfodi drwy gymryd rheolaeth dros nwyddau. Mae paragraff 7 o Atodlen 12 i'r Ddeddf TLIG yn datgan na chaiff asiant gorfodi gymryd rheolaeth dros nwyddau onid yw'r dyledwr wedi cael rhybudd.
61. Mae o fudd i bob parti bod rhybudd digonol yn cael ei roi o unrhyw gamau gorfodi. Mae hyn yn rhoi un cyfle olaf i'r dyledwr dalu'r ddyled cyn i'r asiant gorfodi gyrraedd yr eiddo i gymryd rheolaeth dros y nwyddau. Bydd yr asiant gorfodi'n hawlio'r costau a ganiateir ac ymdrinnir â hyn ym Mhennod 5 y papur hwn.
62. Y cyfnod rhybudd lleiaf fel y nodir yn rheoliad 7 yw saith niwrnod heblaw mewn perthynas ag Adfer Ôl-ddyledion Rhent Masnachol (CRAR). Ateb y tu allan i'r llys ydy CRAR ac felly mae isafswm cyfnod o 14 diwrnod wedi'i nodi er mwyn galluogi'r llys i ymyrryd, os bydd raid, fel y nodir yn adran 78 o'r Ddeddf TLIG.
63. Gwerthfawrogir mewn rhai achosion bod yr asiant gorfodi'n adnabod y dyledwr ac y bydd yn ceisio osgoi gorfodaeth. Felly mae rheoliad 7(5) yn rhoi'r pŵer i'r llys orchymyn cyfnod rhybudd byrrach. Mae'r rheoliadau'n nodi'n glir mai dim ond os yw'n debygol y bydd y nwyddau'n cael eu symud neu y ceir gwared â hwy mewn rhyw ffordd arall er mwyn osgoi'r camau gorfodi y caiff y llys orchymyn hyn.
64. Pwrpas y rhybudd gorfodi yw gwneud yn siŵr bod y dyledwr yn gwybod beth ydy'r ddyled; ei fod yn gwybod pa gamau y mae angen iddo eu cymryd i osgoi rhagor o gamau gorfodi; a'i fod yn ymwybodol o ganlyniadau peidio â thalu. Mae Rheoliad 8 yn nodi cynnwys y rhybudd a darperir enghraifft – Dogfen 1 yn Atodiad F.

C12 Ydych chi'n cytuno â'r cyfnod rhybudd lleiaf cyn cymryd rheolaeth dros nwyddau? Os nad ydych chi, esboniwch pam, a darparu dadl arall ategol.

65. Os bydd y dyledwr yn anwybyddu'r rhybudd gorfodi neu ddim yn cydymffurfio ag ef, y cam nesaf fydd i'r asiant gorfodi fynd i eiddo'r dyledwr a chymryd rheolaeth dros nwyddau. Dyma gychwyn y cam gorfodi a bydd yn arwain at ychwanegu rhagor o gostau'r asiant gorfodi at y ddyled.

Cam Gorfodi

66. Er mwyn cymryd rheolaeth dros nwyddau, efallai y bydd yn rhaid i'r asiant gorfodi fynd i mewn i eiddo'r dyledwr. Ond, ar y cam hwn, mae'r dyledwr wedi cael sawl cyfle i wneud y trefniadau gofynnol i setlo'r ddyled. Mae'n ddyletswydd ar yr asiant gorfodi i bennu nwyddau y gellir cymryd rheolaeth drostynt ac a fyddai, petaent yn cael eu gwerthu, yn talu'r ddyled a'r costau.

Mynediad i eiddo

67. Dan ein cynigion, ni fydd yn bosibl mwyach mynd i mewn i eiddo drwy ffenestr agored neu ffenestr do, rhywbeth y caniateir ar hyn o bryd. Dim ond trwy unrhyw ddrws neu ddull arferol o gael mynediad i'r eiddo y caiff asiant gorfodi fynediad neu ailfynediad i eiddo fel y nodir yn rheoliad 21. Y rheswm pam y mae angen i'r asiant gorfodi fynd i mewn i'r eiddo yw i nodi unrhyw nwyddau y gellid eu cymryd dan reolaeth; negodi cytundebau nwyddau dan reolaeth; neu gymryd rheolaeth dros nwyddau a'u symud ar gyfer eu gwerthu gan nad yw'r dyledwr wedi talu'r ddyled na'r costau.

<p>C13 Ydych chi'n cytuno â'r dulliau mynediad ac ailfynediad? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda.</p>

68. Ar hyn o bryd mae'r diwrnodau a'r oriau a ganiateir ar gyfer cael mynediad yn ddryslyd ac yn cael eu camddeall. Mae'r darpariaethau'n gymysgedd o gytundebau a darpariaethau statudol gan gynnwys y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Asiantau Gorfodi. Ym mharagraff 24 o Atodlen 12 ceir darpariaeth lle gall y pŵer mynediad fod yn ddarostyngedig i unrhyw gyfyngiadau a osodir gan reoliadau. Mae paragraff 25 yn ei gwneud yn ofynnol cael rheoliadau ar gyfer oriau mynediad a ganiateir. Mae rhai wedi dadlau y dylai asiant gorfodi allu cael mynediad i eiddo ar unrhyw ddiwrnod ac ar unrhyw bryd.
69. Roeddem wedi ystyried gosod cyfyngiadau ar y diwrnodau y caiff asiant gorfodi fynd i mewn i eiddo (er enghraifft, nid ar ddiwrnodau crefyddol) ond ar ôl pwyso a mesur, penderfynwyd y byddai cynnwys hyn yn y rheoliadau yn anymarferol. Byddai'n rhaid i'r asiant gorfodi gasglu gwybodaeth ymlaen llaw am y dyledwr er mwyn gwneud penderfyniad ynghylch pa ŵyl grefyddol neu ddiwylliannol i'w chadw a gallai hyn fod yn agored i ymglyfreitha petai'n anghywir. Felly bydd y rheoliadau'n caniatáu i'r asiant orfodi fynd i mewn i eiddo ar unrhyw ddiwrnod o'r wythnos. Mae hyn wedi'i nodi yn rheoliad 22.
70. O ran oriau'r dydd, rydym o'r farn mai dim ond rhwng 6.00am a 9.00pm y dylai asiant gorfodi gael mynediad i eiddo. Nid yw hyn yn cynnwys eiddo nad yw'n gwbl breswyl ac yn cael ei ddefnyddio i gynnal masnach neu fusnes ac yn agored ar gyfer masnachu neu fusnes ar adegau eraill.
71. Eithriad arall yw lle mae'r asiant gorfodi wedi dechrau'r broses o gymryd rheolaeth dros nwyddau, lle bydd yn cael cwblhau'r broses hyd yn oed os yw hyn yn golygu y bydd yn aros ar yr eiddo y tu allan i'r oriau hyn.
72. Mae pennu'r amseroedd ar gyfer mynd i mewn i eiddo gan yr asiant gorfodi'n rhoi amddiffyniad i'r dyledwr. Ond, mae'n cael ei dderbyn y gall achlysuron godi lle gellir cyfiawnhau mynd i mewn i eiddo y tu allan i'r oriau hyn. Mae hyn yn arbennig o berthnasol pan mae'r dyledwr yn gweithio shifftiau, oriau hir iawn neu os yw'n ceisio osgoi'r camau gorfodi. Felly dan y rheoliadau caiff asiant gorfodi wneud cais i'r llys i gael mynediad i eiddo i gymryd rheolaeth dros nwyddau y tu allan i'r oriau hyn. Mae Rheoliad 23 yn nodi'r oriau mynediad a ganiateir.

C14 Ydych chi'n cytuno y dylai'r asiant gorfodi allu cael mynediad i eiddo ar unrhyw ddiwrnod? Os na, cynigiwch derfynau gyda dadl i gefnogi.

C15 Ydych chi'n cytuno â'r terfynau amser o 6.00am a 9.00pm ar gyfer cael mynediad i eiddo preswyl llwyr? Os na, cynigiwch derfynau eraill gyda dadl i gefnogi.

73. Mae'r Ddeddf TLIG yn gwahaniaethu rhwng pwerau mynediad a phwerau i gymryd rheolaeth dros nwyddau. Mae rheoliadau 13 a 14 yn pennu'r dyddiau a ganiateir ar gyfer cymryd rheolaeth dros nwyddau a'r oriau gwaharddedig ar gyfer cymryd rheolaeth dros nwyddau. Mae'r rheoliadau hyn yn adlewyrchu'r diwrnodau a'r oriau a ganiateir yn rheoliadau 22 a 23 i sicrhau bod asiantau gorfodi, pan mae ganddynt ganiatâd i fynd i mewn i eiddo, yn gallu cymryd rheolaeth dros nwyddau hefyd.
74. Mae rheoliadau 13 a 14 yn berthnasol pan gymerir rheolaeth dros nwyddau drwy unrhyw un o'r ffyrdd a restrir o dan baragraff 13(1). Mae hyn yn rhagor o amddiffyniad i'r dyledwr gan nad oes yn rhaid cael mynediad i eiddo bob amser er mwyn cymryd rheolaeth dros nwyddau, er enghraifft cymryd rheolaeth dros gerbyd ar y briffordd.

C16 Ydych chi'n cytuno y dylai'r asiant gorfodi allu cymryd rheolaeth dros nwyddau ar unrhyw ddiwrnod? Os na, cynigiwch derfynau gyda dadl i gefnogi.

C17 Ydych chi'n cytuno â'r terfynau amser o 6.00am a 9.00pm ar gyfer cymryd rheolaeth dros nwyddau? Os na, cynigiwch derfynau eraill gyda dadl i gefnogi.

C18 Ydych chi'n cytuno y dylid caniatáu i'r asiant gorfodi fwrw ymlaen y tu allan i'r terfyn oriau lle mae'r broses wedi cychwyn yn barod? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda.

Nwyddau y ceir eu cymryd

75. Dan ein cynigion, byddwn yn egluro pa nwyddau y gellir eu rhoi dan reolaeth. Mae paragraff 10 o Atodlen 12 i'r Ddeddf TLIG yn datgan mai dim ond nwyddau'r dyledwr y caiff yr asiant gorfodi gymryd rheolaeth drostynt. Mae paragraff 11 yn caniatáu i nwyddau sydd wedi'u heithrio gael eu diogelu. Mae paragraff 3 yn disgrifio nwyddau eithriedig fel nwyddau sydd wedi cael eu disgrifio yn y rheoliadau fel nwyddau eithriedig.

Nwyddau eithriedig

76. Mae darparu eithriad ar gyfer rhai nwyddau yn ddarpariaeth hanfodol sy'n diogelu rhag cymryd rheolaeth dros nwyddau a allai olygu caledi difrifol neu a allai effeithio'n ddifrifol ar anghenion domestig. Mae modd cymryd holl nwyddau eraill y dyledwr dan reolaeth, gan gynnwys nwyddau y mae'r dyledwr a rhywun arall yn berchen arnynt ar y cyd.

77. Mae rheoliadau 4 a 5 yn disgrifio'r nwyddau eithriedig. Pwrpas y darpariaethau ar nwyddau eithriedig yw sicrhau eglurder a chysondeb er mwyn mynd i'r afael â diffygion y ddeddfwriaeth bresennol, yn arbennig, mae nwyddau gwahanol wedi'u heithrio ar gyfer dyledion gwahanol. Ond rhaid i'r ystod nwyddau beidio â bod mor fawr fel ei fod yn tanseilio'r broses orfodi.

C19 Ydych chi'n cytuno â'r amrediad o nwyddau eithriedig? Os nad ydych chi, a fydddech chi'n cynnig cynigion i'w cynnwys neu ddadl yn erbyn eu cynnwys.

78. Mae'r Llywodraeth wedi ystyried ond wedi gwrthod at ei gilydd y posibilrwydd o adael i'r asiant gorfodi gymryd rheolaeth dros nwyddau eithriedig mewn amgylchiadau rhagnodedig os darperir nwyddau amgen i'r dyledwr. Mae wedi dod yn glir y byddai hyn yn cymhlethu'r darpariaethau a gallai arwain at weithredu ymosodol gan yr asiant gorfodi wrth benderfynu pa nwyddau i'w symud.

Cytundeb nwyddau dan reolaeth

79. Y ffordd hawsaf i ddyledwr atal asiant gorfodi rhag symud ei nwyddau a'u gwerthu yw talu'r ddyled ac unrhyw gostau cysylltiedig. Os nad yw hynny'n bosibl, yr unig ateb arall yw gwneud cytundeb nwyddau dan reolaeth.
80. Pwrpas y cytundeb nwyddau dan reolaeth yw gadael i'r asiant gorfodi gymryd rheolaeth dros y nwyddau ond eu gadael ym meddiant y dyledwr. Mae hyn yn golygu na fydd yr asiant gorfodi'n eu symud na'u gwerthu ar yr amod bod y ddyled a'r costau gorfodi i gyd yn cael eu talu erbyn dyddiad penodol. Rhaid i'r dyledwr hefyd gytuno i beidio â symud na chael gwared â'r nwyddau.
81. Mae pryder wedi'i fynegi nad yw hi bob amser yn bosibl i'r dyledwr ymrwymo i gytundeb nwyddau dan reolaeth gan nad yw efallai yn yr eiddo. Os oes modd cysylltu â'r dyledwr, mae gwerth mewn gadael i'r dyledwr awdurdodi unigolyn i ymrwymo i'r cytundeb ar ei ran.
82. Efallai nad yw bob amser yn bosibl cysylltu'n syth â'r dyledwr, yn arbennig os dyledion busnes sy'n cael eu hadennill. Pan mae unigolyn yn cael ei adael yn gyfrifol neu fel petai mewn awdurdod yn yr eiddo, y mae gwerth hefyd mewn gadael i'r unigolyn hwnnw ymrwymo i gytundeb nwyddau dan reolaeth. Bydd hyn yn osgoi symud y nwyddau ac achosi rhagor o gostau i'r dyledwr.
83. Mae rheoliad 15 yn nodi y bydd yn rhaid i'r cytundeb gael ei lofnodi gan yr asiant gorfodi a'r dyledwr, neu gan unigolyn sydd wedi'i awdurdodi gan y dyledwr a hwnnw'n 18 oed neu fwy neu'r sawl sydd mewn awdurdod i bob golwg.
84. Mae ein cynnwys arfaethedig ar gyfer y cytundeb nwyddau dan reolaeth ar gael yn rheoliad 16. Mae dogfen 2 yn Atodiad F yn cynnwys enghraifft o gytundeb nwyddau dan reolaeth.

C20 Ydych chi'n cytuno y dylai'r dyledwr allu awdurdodi rhywun arall i ymrwymo i gytundeb nwyddau dan reolaeth? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda.

C21 Ydych chi'n cytuno y dylai unigolyn sydd mewn awdurdod i bob golwg allu ymrwymo i gytundeb nwyddau dan reolaeth? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda.

85. Pan na fydd y dyledwr yn cydymffurfio â'r cytundeb nwyddau dan reolaeth neu ddim yn talu'r ddyled a'r costau sy'n ddyledus yn yr amser sydd wedi'i bennu, mae gan yr asiant gorfodi'r hawl i symud y nwyddau ar gyfer eu storio neu eu gwerthu.

Ffyrdd arall o gymryd rheolaeth dros nwyddau

86. Mae paragraff 13 o Atodlen 12 i'r Ddeddf TLIG yn pennu'r ffyrdd o gymryd rheolaeth dros nwyddau. Os nad yw'r dyledwr yn fodlon ymrwymo i gytundeb nwyddau dan reolaeth, rhaid i'r asiant gorfodi wneud un o'r canlynol:
- sicrhau'r nwyddau ar yr eiddo lle mae'n dod o hyd iddyn nhw;
 - os yw'n eu canfod ar briffordd, eu sicrhau ar briffordd, lle mae'n dod o hyn iddyn nhw neu o fewn pellter rhesymol; neu
 - eu symud a'u sicrhau mewn man arall.

Sicrhau'r nwyddau ar yr eiddo lle mae'n dod o hyd iddyn nhw

87. Er mwyn darparu diogelwch, mae'r rheoliadau'n pennu'r camau y mae angen i'r asiant gorfodi eu cymryd wrth sicrhau nwyddau. Mae rheoliad 17 yn delio â nwyddau i'w sicrhau ar yr eiddo lle ceir hyd iddyn nhw. Fe wnaethom ystyried mater sicrhau'r eiddo cyfan a dod i'r casgliad y byddai hyn yn amhriodol ar gyfer eiddo preswyl llwyr. Ond, rydym wedi darparu ar gyfer sicrhau'r eiddo cyfan (neu ran o'r eiddo hwnnw) sy'n cael ei feddiannu'n gyfan gwbl at ddibenion masnach neu fusnes.

C22 Allwch chi ddarparu unrhyw dystiolaeth ddiweddar sy'n cefnogi neu'n herio'r dull ar gyfer grymuso asiantau gorfodi i sicrhau'r eiddo cyfan?

88. Bydd y Bil Diogelu Rhyddidau yn cyflwyno trosedd - atal cerbyd rhag gallu symud, symud cerbyd neu gyfyngu ar symudiad cerbyd heb awdurdod cyfreithlon. Y darpariaethau yn y Ddeddf TLIG fydd yr awdurdod cyfreithlon yn caniatáu i asiantau gorfodi atal cerbyd rhag gallu symud a symud cerbyd wrth gymryd rheolaeth dros gerbyd dyledwr.
89. Mae'r rheoliadau hefyd yn darparu ar gyfer atal nwyddau rhag cael eu symud ar eiddo'r dyledwr, er enghraifft cerbyd ar y dreif. Fel amddiffyniad, rhaid gosod rhybudd ysgrifenedig ar y nwyddau a rhaid iddo gynnwys yr wybodaeth a restrir yn Rheoliad 17(4). Mae dogfen 3 yn Atodiad F yn enghraifft o rybudd atal symud.

Eu sicrhau ar briffordd

90. Mae paragraff 13(1)(b) o Atodlen 12 i'r Ddeddf TLIG yn caniatáu i'r asiant gorfodi sicrhau nwyddau'r dyledwr ar y briffordd un ai yn y man lle mae'n dod o hyd iddyn nhw neu o fewn pellter rhesymol. Mae rheoliad 12 yn pennu rhai amgylchiadau lle mae'n rhaid i'r asiant gorfodi beidio â chymryd rheolaeth dros nwyddau ar y briffordd, yn neilltuol lle mae iechyd y cyhoedd yn cael ei beryglu.
91. Mae cymryd rheolaeth dros gerbydau'n gyffredin ac mae cymryd rheolaeth ar y briffordd yn cael gwared â'r angen i'r asiant gorfodi fynd i mewn i eiddo'r dyledwr. Dan y rheoliadau mae'n rhaid i asiantau gorfodi sicrhau nwyddau a gymerir dan reolaeth ar briffordd a'r rheini'n gerbydau drwy gyfrwng dyfais atal symud. Pan fydd cerbyd yn cael ei atal rhag symud mae'n bwysig fod y dyledwr yn gwbl ymwybodol o'r rheswm. Rhaid gosod rhybudd ysgrifenedig ar y cerbyd a rhaid iddo gynnwys yr wybodaeth a restrir yn rheoliad 17(4).
92. Byddai'n amhriodol i asiant gorfodi atal cerbyd rhag symud ar briffordd pan allai hynny olygu bod y dyledwr yn torri gwaharddiad neu gyfyngiad a roddwyd gan neu o dan unrhyw ddeddfiad. Gan fod paragraff 13(1)(b) o Atodlen 12 i'r Ddeddf TLIG yn caniatáu i'r asiant gorfodi sicrhau cerbyd o fewn pellter rhesymol, dywed y rheoliadau bod yn rhaid ail-leoli cerbyd cyn i'r asiant gorfodi atal y cerbyd rhag symud os byddai yn y fan honno yn torri unrhyw ddeddfiad. Yn yr amgylchiadau hyn, mae rheoliad 19(6) yn cynnwys gofyniad ar i'r asiant gorfodi ddarparu rhagor o wybodaeth i'r dyledwr. Mae Dogfen 4 yn Atodiad F yn enghraifft o rybudd bod cerbyd yn cael ei ail-leoli ac yn cael ei atal rhag symud.
93. Er ein bod yn awyddus i gefnogi gorfodaeth effeithiol, rydym am fod yn deg â dyledwyr. Felly bydd darpariaeth lle bydd yn rhaid i gerbyd aros heb allu symud am 24 awr cyn y bydd yn cael ei symud i fan storio ar gyfer ei werthu. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r dyledwr dalu'r ddyled ac unrhyw gostau sydd wedi cronni heb y costau ychwanegol ar gyfer symud a storio'r cerbyd.

C23 Ydych chi'n cytuno â'r terfyn amser ar gyfer cadw cerbyd yn ddisymud cyn y bydd yn cael ei symud i'w storio? Os nad ydych chi, esboniwch pam, a darparu cyfnod arall ynghyd â dadl ategol.

Rhybudd ar ôl mynediad neu gymryd rheolaeth dros nwyddau ar y briffordd

94. Pan fydd yr asiant gorfodi'n cymryd rheolaeth dros nwyddau un ai ar y briffordd, neu ar ôl mynd i mewn i eiddo, mae'r rheoliadau'n datgan yn glir bod yn rhaid i'r asiant gorfodi roi rhybudd i'r dyledwr yn rhestru'r nwyddau sydd wedi'u cymryd. Mae cynnwys y rhybudd i'w weld yn rheoliad 27. Bydd hyn yn sicrhau bod y dyledwr yn gwbl ymwybodol o'r camau y mae'r asiant gorfodi wedi'u cymryd.

Rhestr eiddo

95. Rydym yn bwriadu tynhau'r rhestrau eiddo a ddarperir pan fydd asiant gorfodi'n cymryd rheolaeth dros nwyddau. Ar hyn o bryd mae ansawdd llawer

o restrau eiddo yn amheus. Pan fydd yr asiant gorfodi'n cymryd rheolaeth dros nwyddau mae ganddo ddyletswydd o dan baragraff 34 o Atodlen 12 i'r Ddeddf TLIG i roi rhestr eiddo i'r dyledwr sy'n cynnwys yr holl nwyddau y mae wedi'u cymryd. Mae cynnwys y rhestr eiddo ar gael yn rheoliad 30. Mae dogfen 5 yn Atodiad F yn enghraifft o rybudd ar y cyd ar ôl cael mynediad, neu gymryd rheolaeth dros nwyddau a rhestr eiddo ar gyfer y nwyddau sydd wedi cael eu cymryd dan reolaeth.

Symud y nwyddau a'u sicrhau mewn man arall

96. Pan fydd yr asiant gorfodi'n symud nwyddau'r dyledwr a'u sicrhau mewn man arall, rydym yn cynnig y dylai hwn, dan amgylchiadau arferol, fod o fewn pellter rhesymol i'r man lle cymerwyd y nwyddau. Mae'r manylion i'w cael yn rheoliad 20. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i'r dyledwr gasglu'r nwyddau os bydd yn talu'r ddyled a'r costau. Mae'n ddyletswydd ar yr asiant gorfodi i ofalu am y nwyddau sy'n cael eu symud ar gyfer eu storio. Mae'r manylion i'w cael yn rheoliad 31.

Y Cam Gwerthu

97. Os na fydd y dyledwr yn glynu wrth unrhyw gytundeb sydd wedi'i wneud â'r asiant gorfodi, yn unol â thelerau'r cytundeb nwyddau dan reolaeth, neu os na fydd yn setlo'r ddyled a'r gost, mae gan yr asiant gorfodi yr hawl i symud y nwyddau a threfnu i'w gwerthu. Gellir gwerthu'r nwyddau y bydd yr asiant gorfodi'n cymryd rheolaeth drostynt er mwyn setlo'r ddyled a thalu'r costau. Anaml iawn y cyrhaeddir y cam gwerthu nwyddau, ac mae'n digwydd mewn llai na 3% o achosion gorfodi.
98. Dan ein cynigion, cyn y bydd nwyddau'n cael eu gwerthu, bydd yn rhaid i'r asiant gorfodi ddarparu amcan bris ysgrifenedig i'r dyledwr ac unrhyw gydberchennog. Gall yr asiant gorfodi wneud yr amcanbrisiu neu gyfarwyddo prisiwr cymwys annibynnol i wneud hynny.
99. Yn y cynigion hefyd ceir darpariaeth sy'n nodi na chaiff y nwyddau eu gwerthu am o leiaf saith niwrnod o'r adeg y cafodd y nwyddau eu symud ar gyfer eu gwerthu. Mae hyn oni bai y byddai'r nwyddau yn dod yn amhosibl eu gwerthu neu petai eu gwerth yn lleihau'n sylweddol, er enghraifft, nwyddau nad ydynt yn cadw.
100. I sicrhau bod y dyledwr yn gwbl ymwybodol o'r camau gorfodi, bydd yn rhaid i'r asiant gorfodi roi gwybod i'r dyledwr am y gwerthiant. Rhaid iddo wneud hyn o leiaf 7 niwrnod cyn y gwerthiant, oni bai ei fod yn gategori sy'n caniatáu i nwyddau gael eu gwerthu mewn llai na saith niwrnod, er enghraifft, nwyddau nad ydynt yn cadw am hir. Yn yr achos hwn, rhaid i'r dyledwr dderbyn rhybudd o leiaf un diwrnod cyn y gwerthiant.
101. Mae cynnwys y rhybudd i'w weld yn glir yn rheoliad 36. Mae dogfen 6 yn Atodiad F yn enghraifft o rybudd gwerthu.

C24 Ydych chi'n cytuno â'r cyfnod sydd wedi'i osod ar gyfer yr isafswm cyfnod cyn y gellir bwrw ymlaen â'r gwerthiant? Os nad ydych chi, esboniwch pam a darparu cyfnod arall ynghyd â dadl i gefnogi hynny.

102. Byddwn yn darparu rhagor o amddiffyniad i ddyledwyr drwy ei wneud yn ofynnol i'r asiant gorfodi werthu neu gael gwared â nwyddau dan reolaeth am y pris gorau y gellir yn rhesymol ei gael. Fel arfer rhaid gwerthu nwyddau mewn arwerthiant cyhoeddus sy'n cynnwys safle arwerthiant electronig. Mewn rhai amgylchiadau, gellir gwerthu nwyddau ar gyfer dyledion Uchel Lys, llys sirol a Chyllid a Thollau EM ar y safle lle cafwyd hyd i'r nwyddau, ar yr amod bod y safle'n cael ei ddefnyddio at ddibenion masnach neu fusnes yn unig. Mae'r manylion i'w cael yn rheoliad 39.
103. Efallai na fydd modd cael y pris gorau mewn arwerthiant cyhoeddus. Felly mae paragraff 41 o Atodlen 12 i'r Ddeddf TLIG yn caniatáu i'r asiant gorfodi wneud cais i'r llys am ddull arall. Mae'r rheoliadau'n cadarnhau y gall y dulliau hyn gynnwys contract preifat, ceisiadau wedi'u selio a thrwy hysbyseb. Gall y llys hefyd orchymyn dull arall sy'n briodol yn ei farn ef.

C25 A ddylid cynnwys unrhyw ddulliau gwerthu eraill yn y rheoliadau heblaw am contract preifat, ceisiadau wedi'u selio neu hysbyseb? Os dylid, rhwch fanylion llawn.

104. Ymdrinnir â defnyddio'r enillion a geir o werthu'r nwyddau yn yr un modd ag unrhyw daliad arall a fydd yn cael sylw mwy manwl ym Mhennod 5 y papur hwn. Ar hyn o bryd, nid yw'r rheoliadau'n delio â'r sefyllfa lle nad yw'r elw a wneir o werthu nwyddau'n ddigon i dalu'r ddyled a'r costau. Rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylai cost yr arwerthiant gael ei dalu i ddechrau a gweddill yr elw'n cael ei ddosbarthu ar sail pro rata rhwng dyled y credydwr a chostau'r asiant gorfodi. Effaith hyn fyddai dosbarthiad cyfiawn a theg

C26 Ydych chi'n cytuno â'r dull o ddelio â'r elw a wneir o werthu nwyddau? Os nad ydych chi, esboniwch pam, a darparu dull arall a dadl i gefnogi hynny.

105. Byddwn yn darparu mesur diogelu arall - os na fydd yr asiant gorfodi'n rhoi rhybudd o werthiant i'r dyledwr neu gydberchennog o fewn y cyfnod a ganiateir, datgenir bod y nwyddau wedi cael eu gadael (*abandoned*) gan yr asiant gorfodi. Os digwydd hyn, bydd yn rhaid dychwelyd y nwyddau at y dyledwr. Os cafodd nwyddau'r dyledwr eu symud gan yr asiant gorfodi, a'u bod wedyn yn cael eu gadael, rhaid i'r asiant gorfodi roi rhybudd i'r dyledwr bod y nwyddau ar gael i'w casglu. Mae dogfen 7 yn Atodiad F yn enghraifft o rybudd gadael.
106. Datganir hefyd bod nwyddau wedi'u gadael os byddant yn dal heb eu gwerthu. Bydd hyn yn sicrhau bod yr asiant gorfodi'n symud nwyddau sy'n briodol i'w gwerthu a bod y gwerthiant yn cael ei drefnu'n briodol.

107. Dadleuir bod y darpariaethau yn y Ddeddf TLIG sy'n datgan bod nwyddau heb eu gwerthu yn nwyddau wedi'u gadael yn gwrthdaro'n anfwriadol, mewn rhai achosion prin, â'r amddiffyniad a roddir i'r dyledwr y bydd yr asiant gorfodi'n cael y pris gorau posibl am y nwyddau. Felly, rydym wedi cynnwys darpariaeth yn y rheoliadau i ddiogelu nwyddau lle nad yw cynnig mewn arwerthiant yn cyrraedd y pris cadw. Ein bwriad hefyd yw diwygio'r Ddeddf TLIG fel y nodir yn Atodiad D.
108. Dan baragraff 53(3) o Atodlen 12 i'r Ddeddf TLIG caiff y rheoliadau nodi amgylchiadau eraill lle bydd nwyddau dan reolaeth yn cael eu gadael. Nid ydym wedi pennu unrhyw amgylchiadau eraill lle mae nwyddau dan reolaeth yn cael eu gadael ac felly nid ydym wedi llunio unrhyw reoliadau ar hyn.

C27 A oes unrhyw amgylchiadau eraill lle gellir tybio bod nwyddau wedi'u gadael? Os oes, rhowch fanylion.

Gwarannau

109. Caiff yr asiant gorfodi gymryd dan reolaeth nwyddau sy'n cael eu diffinio fel eiddo o unrhyw ddisgrifiad heblaw tir. Oherwydd natur unigryw yr eitem, ymdrinnir â gwarannau ar wahân yn y rheoliadau. Yn benodol, sut y dylent gael eu dal a sut y dylid cael gwared â nhw. Mae'r manylion i'w cael yn rheoliadau 44 a 45.

Bregusrwydd

110. Y mae amgylchiadau'n codi lle na fyddai'n briodol i asiant gorfodi gymryd rheolaeth dros nwyddau, yn bennaf lle mae bregusrwydd yn effeithio ar allu dyledwr i ymgysylltu â'r broses orfodi neu i ddeall y broses. Yn ogystal, gall fod yn anodd i'r dyledwr wneud penderfyniad gwybodus am y ffordd orau o fynd ati i dalu'r ddyled sydd ganddo yn ôl. Gallai hyn beri i'r dyledwr wneud penderfyniad anffafriol, a fyddai yn y pen draw yn gwaethygu'i sefyllfa.
111. Mae gan yr asiant gorfodi ddyletswydd i orfodi'r ddyled, gan fod cyfarwyddyd wedi'i roi gan y credydwr fod dyled angen ei orfodi. Nid yw'r asiant gorfodi'n gallu newid y ddyled, gan mai'r credydwr sy'n gyfrifol am hyn. Ond, efallai mai ymweliad gan yr asiant gorfodi yw'r tro cyntaf i'r dyledwr gydnabod ei sefyllfa ariannol. Mae angen rhoi sylw penodol i'w amgylchiadau unigol. Prif bwrpas ymweliad yr asiant gorfodi yw cael arian ar gyfer talu'r ddyled neu i sicrhau'r ddyled drwy gymryd rheolaeth dros nwyddau. Ond, bydd hefyd mewn sefyllfa i roi gwybod i'r credydwr am amgylchiadau'r dyledwr, a lle bo angen, negodi cynllun rhandaliadau.
112. Mae'r rheoliadau'n gallu cynnwys diffiniad o beth yw bod yn fregus. Ond, mae'n bwysig y dylai hwn gael ei gyfyngu er mwyn peidio â rhoi'r cyfle i ddyledwyr gymryd arnynt eu bod yn fregus er mwyn osgoi eu rhwymedigaethau ariannol. Felly, nid yw'r rheoliadau'n delio â bregusrwydd ar hyn o bryd gan ein bod yn ceisio barn am ddiffiniadau ymarferol posibl.
113. Nid yw rhestr o'r amgylchiadau bregus posibl yn cael ei hystyried yn ddigonol. Er enghraifft, efallai yr effeithir yn fawr ar un unigolyn sydd â salwch a heb allu

delio ag unrhyw rai o'i faterion tra bydd rhywun arall â'r un salwch yn gwbl alluog ac yn fodlon delio â'r asiant gorfodi i drefnu i ad-dalu'r ddyled. Hefyd, y mae llawer o sbardunwyr cysylltiedig sy'n achosi bregusrwydd, rhai ohonynt dim ond yn rhai dros dro.

114. Rydym o'r farn y bydd y pecyn mesurau sy'n cael ei gynnig yn rhoi amddiffyniad i ddyledwyr bregus. Bydd yn sicrhau eu bod yn cael cyfle i wneud penderfyniad gwybodus ar sut i ddelio â'u dyledion yn hytrach nag osgoi eu had-dalu. Ond, byddwn yn darparu amddiffyniad i bobl fregus mewn rheoliadau drwy bennu ym mha amgylchiadau na fydd asiant gorfodi'n cael cymryd rheolaeth dros nwyddau. Pwrpas y cyfyngiad yn y rheoliadau hyn yw diogelu'r asiant gorfodi a phobl fregus cymdeithas. Rydym yn bwriadu diogelu plant dan 16 oed a phobl fregus, pan nad hwy yw'r dyledwr, pan mai nhw yw'r unig rai sy'n bresennol (mwy nag un neu gyfuniad o'r dda) mewn eiddo lle mae'r nwyddau i'w cael. Gwneir hyn yn rheoliad 11. Mae darpariaethau tebyg wedi'u cynnwys ar gyfer cyfyngiadau ar fynediad, ailfynediad ac aros ar yr eiddo yn rheoliad 24.
115. Ni fydd yr asiant gorfodi'n cael cymryd rheolaeth dros nwyddau pan nad yw dyledwr bregus yn deall effaith y broses. Ond, nid yw hyn yn gwahardd yr asiant gorfodi rhag disgwyl nes y mae'r dyledwr wedi ceisio cymorth ac yn gallu deall yr effaith. Gall hyn fod mor syml â chael gwasanaeth cyfieithu dros y ffôn ar gyfer iaith dramor.
116. Derbynnir na fydd person bregus o bosib yn delio â'r rhybudd gorfodi. Bydd hyn yn arwain at ymweliad gan yr asiant gorfodi ac felly'n ysgogi hawl yr asiant gorfodi i adennill cost y cam gorfodi hwnnw. Ond, mae hyn yn cael ei ystyried yn fwy ffafriol na dychwelyd y ddyled heb ei gorfodi i'r credydwr. Bydd yr asiant gorfodi'n gallu rhoi rhagor o wybodaeth i'r credydwr am amgylchiadau'r dyledwr a darparu cymorth efallai. Gallai hyn arwain at dalu'r ddyled ac osgoi unrhyw gostau a chmau gorfodi pellach sy'n peri gofid.

C28 Ydych chi'n ystyried bod angen diffinio bregusrwydd yn y rheoliadau? Os ydych chi, darparwch ddiffiniad ymarferol gyda dadl i gefnogi.

Adennill Ôl-ddyledion Rhent Masnachol

117. Er mwyn darparu rhagor o amddiffyniad rhag beilïaid ymosodol, mae'r Llywodraeth yn bwriadu rhoi adran 79 o'r Ddeddf TLIG ar waith sy'n diddymu'r hawl cyfraith gwlad i atafaelu am ôl-ddyledion rhent a bydd yn darparu amddiffyniad i denantiaid preswyl. Bwriadwn roi adran 72 o'r Ddeddf TLIG ar waith sy'n caniatáu i landlord o dan les adeilad masnachol ddefnyddio trefniadaeth Atodlen 12 i'r Ddeddf TLIG i adennill oddi wrth y tenant rent sy'n daladwy dan y les heb yr angen i fynd â'r mater i lys.
118. Mae'r darpariaethau ar gyfer Adennill Ôl-ddyledion Rhent Masnachol (CRAR) yn y Ddeddf TLIG yn mynnu bod yn rhaid cael rheoliadau ategol a fydd yn delio â'r canlynol:
- Awdurdodiad landlord;

- Isafswm rhent;
- Hysbysiadau i is-denant.

119. Er mwyn annog mwy o hyblygrwydd gyda chasgliadau gan feiliaid, bydd y Llywodraeth yn rhoi adran 73(8) o'r Ddeddf TLIG ar waith, sy'n caniatáu i landlord awdurdodi rhywun arall i gymryd rheolaeth dros nwyddau ar ran y landlord. Er mwyn gwneud yn siŵr fod yr holl bartïon yn ymwybodol o'u hawliau a'u cyfrifoldebau, ein bwriad yw i'r awdurdodiad fod yn ysgrifenedig. Dim ond er mwyn i asiant gorfodi gymryd rheolaeth dros nwyddau y bydd yr awdurdodiad; mae rheoliad 50 yn nodi'r wybodaeth y bydd yn rhaid iddo ei chynnwys.

C29 Ydych chi'n cytuno â'r wybodaeth y bydd yn rhaid i landlord ei darparu er mwyn awdurdodi asiant gorfodi i gymryd rheolaeth dros nwyddau? Os nad ydych chi, esboniwch pam, a darparu rhagor o wybodaeth y dylid ei chynnwys yn eich barn chi.

120. Ein bwriad yw gweithredu adran 77(4) o'r Ddeddf TLIG a llunio rheoliadau i osod yr isafswm rhent net heb ei dalu cyn y gall y landlord arfer y broses CRAR. Mae'r isafswm rhent net heb ei dalu wedi'i osod fel cyfnod o amser yn hytrach na swm. Mae'r isafswm cyfnod wedi'i osod ar saith niwrnod mewn dyled.

C30 Ydych chi'n cytuno â'r isafswm cyfnod rhent o saith niwrnod mewn dyled? Os nad ydych chi, esboniwch pam, a darparu dadl arall ategol.

121. Ein bwriad yw gweithredu adran 81 o'r Ddeddf TLIG sy'n caniatáu i landlord gyflwyno rhybudd i is-denant yn datgan bod yn rhaid i'r is-denant dalu rhent yn uniongyrchol i'r landlord. Mae'r rheoliadau'n pennu y bydd rhybudd o'r fath yn dod yn weithredol 14 diwrnod ar ôl cyflwyno'r rhybudd. Rhaid i'r rhybudd fod yn ysgrifenedig ac mae'r cynnwys wedi'u nodi yn rheoliad 53.

C31 Ydych chi'n cytuno â chynnwys y rhybudd i'r is-denant? Os nad ydych chi, esboniwch pam, a darparu rhagor o wybodaeth y dylid ei chynnwys yn eich barn chi.

Sicrhau bod yr holl bartïon yn gwybod am eu hawliau a'u cyfrifoldebau

122. Bydd egluro'r gyfraith yn well yn mynd gryn ffordd tuag at sicrhau bod y partïon yn ymwybodol o'u hawliau a'u cyfrifoldebau. Bydd asiantau gorfodi, cynghorwyr cyfreithiol a'r sector cyngor yn gallu helpu dyledwyr i ddeall y gyfraith.

123. Bydd y gyfraith hefyd yn cyflwyno rhybuddion newydd, ar bob cam, i sicrhau bod y dyledwr yn gwbl ymwybodol o ganlyniadau ei weithredoedd neu ei ddiffyg gweithredu. Ond, mae'n bwysig fod y rhybuddion yn syml a gorau oll os

byddant yn cyfyngu ar yr wybodaeth sy'n berthnasol i'r cam nesaf. Mae Atodiad F yn cynnwys y rhybuddion canlynol:

- Dogfen 1 Rhybudd gorfodi;
- Dogfen 2 Cytundeb nwyddau dan reolaeth;
- Dogfen 3 Rhybudd atal symud;
- Dogfen 4 Rhybudd o gerbyd yn cael ei ail-leoli a'i atal rhag symud;
- Dogfen 5 Rhybudd cyfun ar ôl cael mynediad neu gymryd rheolaeth dros nwyddau a rhestr o'r nwyddau sydd wedi'u cymryd dan reolaeth;
- Dogfen 6 Rhybudd gwerthu;
- Dogfen 7 Rhybudd gadael.

C32 Ydych chi'n cytuno â chynnwys yr hysbysiadau a'r rhybuddion? Os nad ydych chi, a fyddech chi gystal â chynnig cynigion i'w cynnwys neu ddadl yn erbyn eu cynnwys.

124. Yn ogystal â'r rheoliadau a'r rhybuddion sydd eisoes wedi cael sylw yn y papur hwn, cynigir hefyd y bydd angen o bosibl reolau llys ategol. Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r sector cyngor a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu rhagor o daflenni a chanllawiau. Y nod fydd hysbysu credydwy, dyledwyr ac asiantau gorfodi am eu hawliau a'u cyfrifoldebau. Bydd y rhain yn cael eu datblygu pan fydd rheoliadau a rheolau'r llys i gyd wedi cael eu cwblhau'n derfynol. Ein bwriad yw darparu gwybodaeth ar-lein i sicrhau ei bod ar gael i'r cyhoedd a hawdd cael gafael arni.

5 Costau Gwasanaethau sy'n Gysylltiedig â Gorfodi

125. Un o'r cwynion mwyaf cyffredin a geir am feiliaid yw'r ffioedd y maent yn eu codi. Mae angen i'r Llywodraeth gydbwysu'r rheidrwydd am strwythur costau teg a thryloyw sy'n hawdd ei ddeall â strwythur cynaliadwy sy'n darparu cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer pob agwedd ar waith gorfodi. Mae gorfodaeth yn dasg anodd ond hanfodol a rhaid i feiliaid dderbyn tâl digonol a theg am y gwaith a wnânt.
126. Mae'r drefn costau bresennol ar gyfer asiantau gorfodi'n gymhleth. Mae strwythur costau gwahanol ar gyfer pob pŵer gorfodi. Y mae rhai darpariaethau deddfwriaethol ar gael, megis y rheini sy'n gysylltiedig â gorfodi dirwyon traffig ffyrdd. Mae darpariaethau eraill yn bodoli dim ond mewn trefniadau contractiol a lunnir rhwng cwmni'r asiant gorfodi a'i gleientiaid. Mae diffyg eglurder hefyd yn y strwythurau costau eu hunain, maent yn anodd eu dehongli weithiau ac nid ydynt yn darparu cydnabyddiaeth ariannol ddigonol ar gyfer pob agwedd ar waith gorfodi. Gyda'i gilydd mae'r ffactorau hyn yn golygu bod y broses taliadau ar hyn o bryd yn agored i gael ei chamddefnyddio.
127. Er mwyn delio â'r problemau hyn, bydd y Llywodraeth yn gweithredu paragraff 62 o Atodlen 12 i'r Ddeddf TLIG ac yn darparu ar gyfer rheoliadau i ddarparu ar gyfer adennill symiau oddi wrth y dyledwr parthed costau gwasanaethau sy'n gysylltiedig â gorfodaeth. Bydd y strwythur newydd yn cefnogi egwyddorion tryloywder, cysondeb a chymesuredd. Bydd yn lleihau gweithgarwch ofer ac yn fodd i dalu'n iawn i'r asiant gorfodi.
128. Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, cynhaliodd y Weinyddiaeth Cyfiawnder adolygiad manwl o'r diwydiant gorfodi, gan edrych yn benodol ar y canlynol:
- y gweithgareddau a gyflawnir a pha mor aml y byddant yn cael eu cyflawni;
 - cost gyffredinol cyflawni gweithgarwch gorfodi yn ogystal â chost pob gweithgarwch unigol; a
 - y gyfradd elw gofynnol a'r lefel sy'n cael ei sicrhau ar hyn o bryd o fewn y diwydiant a grwpiau cysylltiedig.
129. Y dadansoddiad sy'n sail i'r strwythur costau yw unig gynnyrch ymgynghorydd allanol a gomisiynwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae copi o'r adroddiad – Adolygiad o Strwythur Ffioedd Gorfodi – Adroddiad gan Alexander Dehayen ar gyfer y Weinyddiaeth Cyfiawnder 2009 ar gael ar (wefan y Weinyddiaeth Cyfiawnder). Cynigiai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder bamedrau modelu cychwynnol yn yr adroddiad.
130. Pwrpas y paramedrau hyn oedd tywys yr ymgynghorydd allanol a chaniatáu i'r dadansoddiad gofynnol gael ei wneud ar gyfer y strwythur ffioedd arfaethedig sydd wedi'i gynnwys yn yr ymgynghoriad hwn. Nid yw'r paramedrau modelu cychwynnol hyn yn adlewyrchu unrhyw benderfyniadau sydd wedi'u gwneud ond mae'n rhaid eu cael i gynnig strwythur costau y gellir ymgynghori'n

effeithiol arno. Mae llawer o'r paramedrau'n adlewyrchu barn a gafwyd mewn ymgynghoriadau blaenorol yn y maes hwn.

131. Nid yw'r adroddiad wedi'i ddiweddarau ers iddo gael ei ysgrifennu yn 2009 ac felly efallai nad yw'n adlewyrchu i) cost a nifer y gweithgareddau, a ffactorau eraill sy'n effeithio ar broffidioldeb a allai fod wedi newid, a ii) efallai bod rhai tybiaethau angen eu diweddarau. Yn fwy cyffredinol, mae'r adroddiad yn seiliedig ar ddata gan sampl bychan o gwmnïau, ac felly efallai nad yw'r dadansoddiad yn cynrychioli'r diwydiant cyfan. Rydym yn ceisio rhagor o ddata yn ystod y broses ymgynghori i fynd i'r afael â'r mater hwn.
132. Mae'r strwythur costau sy'n cael ei gynnig yn cwmpasu nifer o elfennau ac mae'r rhain yn cael eu nodi isod. Mae Atodiad G yn rhoi rhagor o fanylion am y strwythur sy'n cael ei gynnig gan gynnwys lefel y costau a sefydlwyd gan ddefnyddio'r data sydd ar gael yn y sampl.
133. Dyma elfennau'r strwythur sy'n cael ei argymhell:
- Dull gweithredu fesul cam;
 - Symiau penodedig ac elfennau newidiol; ac
 - Unffurfiaeth.

Dull gweithredu fesul cam

134. Mae'r strwythur yn seiliedig ar set o elfennau cyffredin craidd sy'n berthnasol i'r holl weithgarwch gorfodi a wneir ni waeth pa fath o ddyled y mae'n ymwneud ag ef. Mae'r gweithgareddau hyn wedyn wedi'u grwpio mewn camau gyda gweithgarwch sbarduno wedi'i ddiffinio ar gyfer pob cam. Unwaith y bydd y gweithgarwch sbarduno hwnnw wedi'i gyflawni, mae'r gost ar gyfer y cam yn dod yn daladwy.

C33 Ydych chi'n cytuno bod y set o weithgareddau craidd yn y strwythur costau'n cwmpasu'r holl weithgarwch gorfodi a wneir ni waeth beth yw'r ddyled? Os nad ydych chi, esboniwch pam, a darparu dull arall a dadl i gefnogi hynny.

135. Mae'r dull gweithredu fesul cam yn cael ei argymhell er mwyn sicrhau bod yr asiant gorfodi'n cael ei dalu am y gwaith y bydd yn ei wneud. Mae hefyd yn cael gwared â chymhellion ariannol posibl i'r asiant gymryd camau gorfodi diangen. Fe fydd tri cham:
- Cam Gweinyddu / Cydymffurfio;
 - Cam Gorfodi; a
 - Cam Gwerthu.
136. Mae defnyddio dull fesul cam o weithredu ar gyfer costau'n ategu'r cysyniad o gydymffurfio cynnar a mwy o gymesuredd drwy roi cyfle i'r dyledwr dalu adeg y cam Gweinyddu/Cydymffurfio. Felly mae'r dyledwr yn osgoi cael yr asiant gorfodi'n dod i'w eiddo, y posibilrwydd o'i nwyddau'n cael eu rhoi dan reolaeth a wynebu mwy a mwy o gostau.

137. Mae ein dull fesul cam hefyd yn atal yr asiant gorfodi rhag camddefnyddio'r drefn oherwydd mai un gost yn unig sy'n daladwy, fesul cam, ni waeth sawl gwaith y mae gweithgarwch yn cael ei wneud (e.e. y diwedd ar lythyrau di-ri a rhith-ymweliadau gyda chost yn gysylltiedig â phob un).
138. Cytunir mewn egwyddor hefyd mewn sefyllfa lle gellir dangos nad yw'r dyledwr yn gallu ymgysylltu â'r broses ar gam cynnar, oherwydd problemau iechyd meddwl, y bydd angen dileu ffi'r cam gorfodi o bosibl a chodi'r ffi gweinyddu/cydymffurfio yn unig.

C34 Ydych chi'n cytuno â grwpio'r gweithgareddau hyn yn gamau? Os nad ydych chi, esboniwch pam, a darparu dull arall a dadl i gefnogi hynny.

C35 Ydych chi'n cytuno bod y gweithgareddau wedi cael eu grwpio'n gywir? Os nad ydych chi, esboniwch pam, a darparu dull arall a dadl i gefnogi hynny.

C36 Ydych chi'n teimlo bod angen dileu? Os ydych chi, a wnewch chi gynnig cynigion ynghylch lefel y dystiolaeth ofynnol i brofi bod iechyd meddwl wedi cyfrannu at ddiffyg ymgysylltiad.

Symiau penodedig ac elfennau newidiol

139. Mae'r symiau penodedig wedi'u cysylltu â'r camau amrywiol sy'n cael eu cynnig ac maent yn fodd i gael cysylltiad agosach rhwng y swm a'r costau gwirioneddol y mae'r asiant gorfodi wedi'u hysgwyddo am y gweithgareddau sy'n ofynnol ar gam penodol.

C37 Ydych chi'n cytuno bod y symiau penodedig sydd wedi'u priodoli i bob cam yn briodol? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda.

140. Oherwydd eu cymhlethdod gall dyledion gwerth uwch fod yn fwy costus i'w gorfodi ac felly mae elfen ganrannol ychwanegol yn cael ei hargymell ar gyfer y camau gorfodi a gwerthu. Adeg y camau gorfodi a gwerthu, bydd y gost ar gyfer £1000 cyntaf unrhyw ddyled yn gost sefydlog yn unig. Bydd gweddill y ddyled dros £1000 yn wynebu cost ganrannol ychwanegol.

C38 Ydych chi'n cytuno bod y costau canrannol sydd wedi'u gosod ar gyfer y camau perthnasol yn briodol a bod y trothwy wedi'i osod yn gywir? Os nad ydych chi, esboniwch pam, a darparu dull arall a dadl i gefnogi hynny.

141. Mae'r strwythur costau'n caniatáu i gais gael ei wneud i'r llys ar gyfer codi unrhyw gostau ychwanegol, fel y mae llawer o'r systemau ffioedd presennol yn ei wneud. Nid oes manylion ynglŷn â hyn gan fod y strwythur costau arfaethedig wedi'i seilio ar yr egwyddor bod yr holl gostau wedi'u cynnwys yn y strwythur. Ond, mae rhai yn dadlau bod angen delio â sefyllfaoedd lle mae'r gweithgareddau gorfodi'n gostus iawn drwy gynnwys proses lle gellir gwneud

cais am gostau eithriadol i'r llys. Mae enghreifftiau o orfodi costus yn cynnwys dyledion gwerth uchel a symud cyfarpar arbenigol neu gostus iawn.

C39 A oes angen proses costau eithriadol? Os oes, a wnewch chi roi cynigion ar gyfer sut byddai cynllun o'r fath yn gweithredu gan gynnwys y trothwyon ar gyfer proses o'r fath?

Unffurfiaeth

142. Y sail resymegol dros unffurfiaeth yw bod llawer o'r gweithgareddau a gyflawnir yn debyg ar draws y gwahanol fathau o ddyledion. Mae'r strwythur costau newydd wedi rhagnodi gweithgareddau unffurf ar draws yr holl fathau o ddyledion.
143. Yn ystod yr adolygiad, daeth yn amlwg fod gwahaniaeth yn y ffordd y mae gorchmynion yr Uchel Lys yn cael eu gorfodi o'i gymharu â mathau eraill o ddyledion. Mae gorfodi gorchmyn Uchel Lys yn llawer drutach na gorfodi mathau eraill o ddyledion gan fod gan Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys atebolrwydd personol i'r credydwr. Mae'n rhaid iddynt sicrhau pob dyled y gellir ei gorfodi p'un ai a oes trefniant talu neu beidio. Er mwyn bod yn deg ac yn gymesur â'r dyledwyr hynny, mae'r cam gorfodi'i wedi'i rannu'n ddau – mae'r gweithgareddau gorfodi gorfodol yng ngham un ac mae'r gweithgareddau a fydd yn cael eu cyflawni dim ond os na fydd y dyledwr yn cydymffurfio yng ngham dau.
144. Gwahaniaeth arall o ran gorfodi gorchmyn Uchel Lys yw'r gofyniad i'r credydwr dalu'r gost Gweinyddu/Cydymffurfio os na fydd y ddyled yn cael ei chasglu oddi wrth y dyledwr.

C40 Ydych chi'n cytuno â'r gwahaniaethau yn y strwythur costau rhwng dyledion Uchel Lys a dyledion heb fod yn rhai Uchel Lys? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda.

145. Gweithredu gan asiant gorfodi yw'r prif ddull ar gyfer adennill dyledion pan fydd talwr ardrethi annomestig heb dalu bil, er derbyn nodiadau atgoffa, a gorchmyn atebolrwydd wedi'i roi. Mae pryder wedi'i fynegi ynglŷn â'r effaith ar y cyfraddau gorfodi ac adennill ar gyfer achosion ardrethi annomestig a anfonir gan Awdurdodau Lleol yn wyneb achosion gwerth uchel iawn ac amseru gweithgarwch gorfodi.

C41 Ydych chi'n meddwl y bydd y strwythur costau'n cael effaith andwyol ar adennill dyledion mewn achosion Ardrethi Annomestig? Os ydych chi, rhowch fanylion.

146. Os ceir taliad rhannol, rydym yn argymhell y dylai'r arian sy'n cael ei adennill gael ei ddsbarthu ar sail pro rata rhwng dyled y credydwr a chostau'r asiant gorfodi. Effaith hyn fyddai rhannu'r arian a gasglwyd yn deg a chyfiawn a hybu parhad y broses orfodi lle bo hynny'n bosibl.

C42 Ydych chi'n cytuno â'r gorchymyn ar gyfer talu arian pan geir taliadau rhannol? Os nad ydych chi, esboniwch pam, a darparu dull arall a dadl i gefnogi hynny.

147. Mae'r strwythur costau'n seiliedig ar astudiaeth a gynhaliwyd yn 2009 yn defnyddio costau a oedd yn ymwneud â 2007/2008. Nid yw'r symiau wedi cael eu newid i adlewyrchu costau heddiw.

C43 A ddylai'r strwythur costau gael ei ddiweddarau er mwyn ystyried chwyddiant cyn ei weithredu?

C44 A ddylai'r strwythur costau gael ei ddiweddarau'n flynyddol drwy ei fynegeo i fesur chwyddiant?

148. Bydd y strwythur costau yn cael ei werthuso a'i adolygu o fewn tair blynedd i'w roi ar waith.

C45 Ydy tair blynedd yn gyfnod addas ar gyfer adolygu'r strwythur costau'n llawn a'i addasu efallai? Os nad ydyw, esboniwch pam, a darparu cynnig arall a dadl i gefnogi hynny.

149. Hefyd, bydd y rheoliadau'n darparu ar gyfer gallu asesu'r swm sydd wedi'i godi ar y dyledwr, os oes anghytundeb yn ei gylch, yn unol â rheolau'r llys. Does dim darpariaeth ar gyfer hyn ar hyn o bryd yn y rheoliadau.

150. Cyhoeddir y strwythur costau ar y wefan Cyfiawnder i sicrhau bod credydwy, dyledwyr, asiantau gorfodi, y proffesiwn cyfreithiol a'r sector cyngor i gyd yn gwybod beth yw cost gorfodi.

6 Trefn Reoleiddio

151. Mae'n bwysig fod unrhyw reoleiddio sy'n digwydd ar y diwydiant gorfodi'n cydymffurfio ag egwyddorion cyffredinol rheoleiddio yn ei gyfanrwydd. Y pum egwyddor yw y dylent fod yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson ac wedi'u targedu dim ond at yr achosion hynny lle mae angen gweithredu. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i leihau biwrocratiaeth ar gyfer busnesau ac mae eisiau osgoi rheoleiddio diangen. Rydym hefyd wedi datgan yn glir na ddylai micro-fusnesau, gyhyd ag y bo modd, wynebu unrhyw reoleiddio newydd. Ond, mae'n rhaid cydbwysu hyn â'r ymrwymiad i ddiogelu defnyddwyr. Mae'r Llywodraeth yn gwbl ymrwymedig i ddelio â beiliaid ymosodol ac felly mae wedi penderfynu defnyddio dull gweithredu cymesur ac wedi'i dargedu mewn perthynas â'r mater hwn.
152. Cafwyd sawl cais am reoleiddio'r diwydiant gorfodi mewn nifer o ymgynghoriadau'r Llywodraeth a galwadau am dystiolaeth. Mae Grŵp Diwygio'r Gyfraith y Sector Cyngor yn dadlau na fyddai rheoleiddio beiliaid yn niweidio economi fregus ac y byddai cwmnïau asiantau gorfodi parchus yn croesawu rheoleiddio statudol i sicrhau nad yw eu henw da yn cael ei niweidio gan asiantau gorfodi diegwyddor. Felly credir nad yw gwneud dim yn opsiwn.
153. Rydym wedi nodi isod yr opsiwn y mae'r Llywodraeth yn ei ffafrio. Ond byddem hefyd yn fodlon ystyried unrhyw ffyrdd eraill o reoleiddio neu opsiynau llai rheoleiddiol.

C46 A ydych chi'n ystyried bod opsiynau eraill neu opsiynau llai rheoleiddiol a fyddai'n addas i asiantau gorfodi? Os ydych chi, darparwch gynigion.

154. Nid yw'r Ddeddf TLIG yn cynnwys darpariaethau ar gyfer sefydlu rheoleiddiwr annibynnol. Yn y gorffennol ystyriwyd defnyddio Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA) i reoleiddio'r diwydiant gorfodi. Ar 14 Hydref 2010, cyhoeddodd y Llywodraeth na fyddai'r SIA mwyach yn Gorff Cyhoeddus Anadrannol a bydd trefn reoleiddio newydd yn cael ei chyflwyno fesul cam ar gyfer y diwydiant diogelwch preifat. Mae'n ddyddiau cynnar iawn o ran datblygu'r drefn, ac felly'n rhy gynnar i ystyried cynnwys y diwydiant gorfodi.
155. Mae'r Llywodraeth yn credu ei fod yn bwysig cael cydbwysedd rhwng diogelu defnyddwyr a lleihau rheoleiddio ar fusnes i'r eithaf. Felly, mae'r Llywodraeth yn bwriadu gweithredu adran 64 o'r Ddeddf TLIG er mwyn i'r Arglwydd Ganghellor allu gwneud rheoliadau am ardystio asiantau gorfodi.
156. Ar hyn o bryd, dim ond beiliaid sy'n gorfodi rhai mathau o ddyledion sy'n gorfod cael tystysgrif gan lys sirol. Mae'r dyledion hyn yn cynnwys atafaelu am rent, dyledion troseddau traffig ffyrdd, y dreth gyngor ac ardrethi annomestig. Mae'r wybodaeth y mae'n rhaid i'r ymgeisydd ei darparu'n gyfyngedig iawn ac yn ymwneud â'u gwybodaeth am gyfraith atafaelu yn unig. Rydym yn diddymu'r broses hon ac yn cyflwyno proses ardystio newydd a gwell. Mae

adran 63 o'r Ddeddf TLIG yn disgrifio asiantau gorfodi ac yn pennu'r gofynion cyn y gall unigolyn weithredu fel asiant gorfodi. Mae hefyd yn creu trosedd lle mae unigolyn yn gweithredu fel asiant gorfodi heb awdurdod.

157. Dan ein cynigion, bydd yn rhaid i bob asiant gorfodi a fydd yn gyfrifol am gymryd rheolaeth dros nwyddau gael tystysgrif gan lys sirol, oni bai eu bod wedi'u heithrio o dan adran 63 o'r Ddeddf TLIG. I gael y manylion gweler Atodiad A. Bydd y gofynion newydd ar gyfer y dystysgrif yn cynnwys:
- Darparu tystiolaeth eu bod wedi llwyddo i sicrhau'r cymhwysedd gofynnol i weithio yn y diwydiant gorfodi.
 - Darparu tystiolaeth eu bod wedi cael archwiliad Cofnodion Troseddol boddhaol.
 - Darparu tystiolaeth o yswiriant atebolrwydd neu ddarparu gwarchodaeth drwy gyfrwng bond.
 - Darparu gwybodaeth am y mathau o ddyledion y byddant yn ceisio'u gorfodi.
 - Hysbysebu'r hysbysiad o gais. Bydd hyn yn galluogi'r cyhoedd i gyflwyno gwrthwynebiadau i roi'r dystysgrif yn y llys.
158. Trafodir y cynigion ar gyfer gofynion cymhwysedd ym Mhennod 7 y papur hwn.
159. Ein bwriad yw ei gwneud yn ofynnol i'r asiant gorfodi gyflwyno'r cais yn y llys sirol sy'n lleol i'r ardal lle bydd yn cyflawni prif ran ei fusnes. Ond, fe fydd yn gallu gweithio yn rhywle yng Nghymru a Lloegr. Byddwn yn pennu amgylchiadau er mwyn i dystysgrifau gael eu rhoi gan Farnwyr Rhanbarth arbenigol a fydd yn ystyried a ddylid rhoi tystysgrif i'r asiant gorfodi.

C47 Ydych chi'n cytuno y dylai'r cais am dystysgrif gael ei wneud gan yr asiant gorfodi yn y llys sy'n lleol i'r ardal lle bydd yn cynnal prif ran ei fusnes? Os na, esboniwch pam, a darparu cynnig arall a dadl i gefnogi hynny.

C48 Ydych chi'n cytuno mai Barnwyr Rhanbarth arbenigol ddylai ddelio â cheisiadau am dystysgrif? Os nad ydych, esboniwch pam gan ddarparu dadl i gefnogi hynny.

160. Byddwn yn llunio rheoliadau a fydd yn cynnwys strwythur a sylfaen y broses ardystio fel y'i nodir yn adran 64(3) o'r Ddeddf TLIG. Yn benodol, bydd y darpariaethau'n cynnwys atal neu ganslo tystysgrifau oherwydd nad yw'r asiant bellach yn addas i ddal tystysgrif. Ymdrinnir â hyn ym Mhennod 8 y papur hwn.
161. Mae'r Llywodraeth yn credu y bydd y broses ardystio hon yn gwella amddiffyniad yn sylweddol. Ond, mae nifer o bartïon wedi galw am greu rheoleiddiwr annibynnol statudol. Nid yw'r Llywodraeth yn teimlo bod hyn yn briodol ar hyn o bryd. Ond, y bwriad yw gwerthuso a monitro darpariaethau ardystio'r Ddeddf TLIG a'r broses gwyno sy'n cael sylw ym Mhennod 8 er mwyn casglu tystiolaeth ynghylch a oes angen rhagor o reoleiddio.

162. Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi cael dau ymateb ar wahân ar reoleiddio annibynnol statudol posibl, y ddau gan Gymdeithas Parcio Prydain. Er nad oes gan y Llywodraeth gynlluniau i gyflwyno rheoleiddiwr ar hyn o bryd, rydym o'r farn y dylid craffu ymhellach ar eu cynigion. Felly, rydym wedi cynnwys eu cynigion isod a byddem yn croesawu barn am eu hymarferoldeb.

163. Y cyntaf yw cynnig y Cyngor Beiliaid ac Asiantau Gorfodi (BEAC) (**Atodiad H**).

- Dan y cynnig hwn byddai BEAC yn trwyddedu unigolion, yn cymeradwyo darparwyr gwasanaeth ac yn achredu cymdeithasau proffesiynol. Y nhw hefyd fyddai'n gosod safonau ymddygiad a pherfformiad yn ogystal ag addysg a hyfforddiant ac ymchwilio i gwynion a honiadau o gamymddwyn.
- Hunanreoleiddio yw hyn i ddweud y gwir, ond byddai annibyniaeth yn cael ei sicrhau mewn tair ffordd:
 - Goruchwyliaeth gyffredinol gan y Cyfrin Gyngor;
 - Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder i benodi Cadeirydd y bwrdd rheoleiddio; a
 - *Mwyafrif* cyngor llywodraethu'r corff rheoleiddio i gael eu penodi o *du allan* y diwydiant gorfodi (gan gynnwys cynrychiolwyr o'r sector cyngor).

164. Mae'r ail yn gynnig mwy diweddar ac wedi'i addasu o gynnig BEAC i gynnwys y diwydiant parcio preifat (**Atodiad I**).

- Dan y cynnig hwn, yn ogystal â'r darpariaethau gan BEAC, byddai'r Cyngor yn darparu Gwasanaeth Apelio Annibynnol mewn perthynas â chwynion a Chynllun Gweithredwr Cymeradwy. Byddai'n cwmpasu'r diwydiant gorfodi a'r diwydiant parcio preifat.
- Sail y cynnig hwn yw'r ddadl y dylid cyfuno'r gwaith o reoleiddio'r diwydiant beiliaid a'r diwydiant parcio preifat gan fod ganddynt yr un problemau a byddai'n darparu arbedion maint. Mae'r cynnig hwn wedi cael ei anfon hefyd gan Gymdeithas Parcio Prydain at yr Adran Trafnidiaeth i'w ystyried ganddynt.

165. Byddai'n rhaid cael deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer y cynigion hyn er mwyn sefydlu corff newydd a chyllid cyhoeddus.

C49 A oes gennych chi unrhyw sylwadau am y naill neu'r llall o'r cynigion sydd wedi'u cyflwyno gan Gymdeithas Parcio Prydain?

7 Gofynion Cymhwysedd

166. Mae'r Llywodraeth yn awyddus i wella safon y diwydiant i wneud yn siŵr fod pob unigolyn a phob cwmni'n rhoi enw da i'r proffesiwn yn hytrach na dim ond ychydig. Ar hyn o bryd does dim gofynion cymhwysedd penodol ar gyfer beiliaid. Mae hyn yn fwlch sylweddol. Mae rhai busnesau wedi cyflwyno'u systemau hyfforddi eu hunain i wneud yn siŵr fod beiliaid yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r diwydiant gorfodi, gan gydweithio ag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch, wedi datblygu modiwl Fframwaith Credydau Ansawdd fel rhan o'r safonau cymhwysedd a chymwysterau penodol.

167. Dan y broses ardystio sy'n cael ei chynnig ym Mhennod 6, mae'n rhaid i'r asiant gorfodi ddarparu tystiolaeth ei fod wedi ennill y cymhwysedd angenrheidiol i weithio yn y diwydiant gorfodi.

168. Yn Atodiad J rydym wedi nodi'r canlyniadau dysgu a'r meini prawf asesu a ddylai, yn ein barn ni, ffurfio rhan o'r broses ardystio. Credwn mai dealltwriaeth o'r canlynol ddylai fod y cymhwysedd sylfaenol ar gyfer asiant gorfodi::

- rôl yr asiant gorfodi;
- y gyfraith a'i pherthnasedd i rôl yr asiant gorfodi;
- yr arfer o gymryd rheolaeth dros nwyddau;
- yr arfer o symud a gwerthu nwyddau;
- agweddau ar ofal cwsmeriaid sy'n berthnasol i asiant gorfodi;
- sut i adnabod, asesu, tawelu, datrys a lleihau risg mewn sefyllfaoedd o wrthdaro.

Y meini prawf sy'n cael eu cynnig yw'r lefel cymhwysedd a gwybodaeth sylfaenol y mae'n rhaid ei chael, yn ein barn ni, er mwyn dechrau gweithio yn y diwydiant gorfodi a chael tystysgrif yn y llys sirol.

C50 Ydych chi'n cytuno bod y meini prawf cymhwysedd yn lefel dderbyniol ar gyfer cael mynediad i'r proffesiwn? Os nad ydych chi, esboniwch pam, a darparu dadl arall ategol.

169. Yr opsiwn yr ydym ni yn ei ffafrio yw bod y meini prawf sy'n cael eu cynnig yn cael eu datblygu'n llawn yn becyn hyfforddi gorfodol achrededig. Byddai pob asiant gorfodi sy'n gwneud cais am dystysgrif yn ymgymryd â'r hyfforddiant gorfodol penodol a darparu tystysgrif i'r llys fel prawf o gymhwysedd. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb safonau yng Nghymru a Lloegr ar gyfer pob asiant gorfodi.

170. Neu gellid bod yn hyblyg ynghylch sut mae'r asiant gorfodi'n darparu tystiolaeth o gymhwysedd i'r barnwr. Gallai hyn gynnwys:

- tystiolaeth ei fod wedi ymgymryd â hyfforddiant achrededig; neu

- tystiolaeth o hyfforddiant arall; neu
- gwerthusiad gan arbenigwr; neu
- hunanasesiad.

Bydd yr opsiwn hwn yn dal i wella'r broses bresennol ond ni fyddai o anghenraid yn darparu safon gyson.

C51 Ydych chi o'r farn bod yn rhaid cael hyfforddiant gorfodol i sicrhau bod asiant gorfodi'n addas ac yn briodol i ddal tystysgrif? Os na, darparwch gynigion eraill.

171. Mae'r diwydiant gorfodi hefyd wedi bod yn gweithio gyda Skills for Security i lunio Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol. Bydd y safonau hyn yn adeiladu ar y cymwyseddau gofynnol.

C52 Ydych chi o'r farn y dylai asiant gorfodi ymgymryd â rhagor o hyfforddiant neu ddatblygiad ar ôl iddo gael y dystysgrif? Os ydych chi, darparwch gynigion.

8 Camau Unioni a Delio â Chwynion

172. Mae dryswch ynghylch pwy ddylai ddelio â chwynion am feiliaid a sut y dylid delio â'r cwynion hynny. Fel gydag unrhyw wasanaeth arall, bydd cwynion yn codi. Bydd angen barnu ar rai a gellir delio ag eraill yn fwy anffurfiol. Efallai y bydd penderfynu ar y trywydd i'w ddilyn yn dibynnu yn y pendraw ar y camau unioni y ceisir a difrifoldeb y gŵyn neu'r toramod. Yn y lle cyntaf dylid o leiaf ceisio unioni'r sefyllfa gyda'r asiant gorfodi dan sylw.
173. Credwn fod ffyrdd effeithiol o gwyno ar gael eisoes. Mae'r Bennod hon yn cynnig newidiadau ar gyfer gwella'r broses ymhellach. Bwriadwn ddarparu gwybodaeth well a chliriach i'r cyhoedd a gwneud yn siŵr bod cyrff yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif.

Anghydfod am y ddyled

174. Mater i'r credydwr neu'r llys yn unig yw unrhyw anghydfod am y ddyled ei hun. Fel sydd wedi'i nodi eisoes yn y papur hwn, nid oes gan yr asiant gorfodi'r awdurdod i dynnu'r camau gorfodi yn ôl. Mater i'r credydwr a/neu i'r llys yw hynny.

Camau Unioni Cyfreithiol

175. Bwriadwn ddarparu rhagofalon cyfreithiol drwy ddod â pharagraff 66 o Atodlen 12 i'r Ddeddf TLIG i rym, sy'n darparu camau unioni ar gyfer dyledwr yn erbyn asiant gorfodi sy'n torri'r drefn ragnodedig ar gyfer cymryd rheolaeth dros nwyddau neu sy'n gweithredu o dan bŵer gorfodi sy'n ddiffygiol. Os bydd y dyledwr yn dewis mynd i'r llys efallai y bydd y llys yn gorchymyn bod y nwyddau'n cael eu dychwelyd i'r dyledwr ac yn gorchymyn i'r asiant gorfodi neu'r parti cysylltiedig dalu iawndal am y golled yr oedd y dyledwr wedi'i ddiodef.
176. Byddwn hefyd yn gweithredu paragraff 60 o Atodlen 12 i'r Ddeddf TLIG sy'n pennu'r drefn i'w dilyn os oes trydydd parti'n hawlio nad yw'r nwyddau a gymerwyd dan reolaeth gan yr asiant gorfodi yn perthyn i'r dyledwr ond yn hytrach iddo ef.
177. Ceir darpariaeth yn y rheoliadau i'r llys bennu'r swm y dylai'r trydydd parti ei dalu i'r llys mewn perthynas â swm sydd gyfwerth â gwerth y nwyddau a chostau'r asiant gorfodi o gadw'r nwyddau dan reolaeth wrth ddisgwyl penderfyniad y llys am yr hawliad. Ceir darpariaeth hefyd yn y rheoliadau ynghylch sut i benderfynu ar unrhyw dandaliadau. Ceir y manylion yn rheoliadau 47 a 48.

Cwynion

178. Fel gyda'r rhan fwyaf o gwynion, mae'r Llywodraeth yn credu y dylid ceisio datrys y mater gyda'r asiant gorfodi a/neu'r cyflogwr i ddechrau. Hefyd, mae'r rhan fwyaf o fusnesau asiantau gorfodi yn perthyn un ai i'r Gymdeithas Gorfodaeth Sifil neu i Gymdeithas Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys.
179. Mae'n rhaid i holl aelodau'r cyrff hyn gydymffurfio â chod ymarfer eu cymdeithas. Mae'r codau ymarfer yn cynnwys y gofyniad i gael trefn gwyno 'fewnol' a bod yn fodlon derbyn trefn gwyno'r gymdeithas ei hun pan fydd raid.
180. Ceir lleiafrif o asiantau gorfodi nad ydynt yn aelodau o'r cymdeithasau hyn. Fel arfer cwmnïau bach iawn yw'r rhain neu 'fandiau un-dyn' sydd gan amlaf yn cael eu gwaith drwy is-gontractio i un o'r cwmnïau mwy. O'r herwydd, bydd unrhyw gŵyn yn eu herbyn yn mynd i'r cwmni sydd wedi eu his-gontractio.
181. Mae'r Gymdeithas Gorfodaeth Sifil a Chymdeithas Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys yn cydweithio gyda'r sector cyngor i lunio proses gwyno bwrpasol y gellid ei defnyddio ar draws y diwydiant. Pan fydd y broses hon wedi'i datblygu'n llawn, bydd ar gael i bawb ar-lein.
182. Mae'r pŵer i orfodi dyledion treth gyngor, ardrethi annomestig a dyledion traffig gan yr awdurdod lleol perthnasol. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn rhoi'r gwaith hwn allan ar gontract. Ond mae'r cyfrifoldeb dros y proses yn aros o hyd gyda'r awdurdod lleol. Gellir felly cyflwyno unrhyw gŵyn i'r awdurdod lleol.
183. Gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi mae'r pŵer i orfodi dirwyon llysoedd ynadon. Mae'r rhan fwyaf o waith gorfodi gwarantau'n cael ei gontractio allan. Fel gydag awdurdodau lleol, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi sy'n dal yn gyfrifol am y broses a dylid cyflwyno unrhyw gŵyn iddynt hwy.

Asiant Gorfodi nad yw'n addas i weithredu

184. Fel y nodir ym Mhennod 6, bydd yn rhaid i'r asiant gorfodi gael tystysgrif er mwyn cymryd rheolaeth dros nwyddau. Bydd y dystysgrif yn cael ei rhoi gan farnwr yn y llys sirol. Bydd gan y barnwr hefyd y pŵer i atal neu ganslo unrhyw dystysgrif.
185. Dan ddarpariaeth yn y rheoliadau caiff unrhyw un o'r partïon, cymdeithas neu gyflogwr yr asiant gorfodi gyflwyno cwyn yn y llys. Bydd pwrpas y gŵyn yn gyfyngedig. Y cyfan y gall y llys ei ystyried yw a yw'r asiant gorfodi'n dal yn addas i ddal tystysgrif neu a ddylid atal y dystysgrif. Ein bwriad yw cynnwys yn y darpariaethau pa gamau y bydd angen i'r asiant gorfodi eu cymryd tra mae'r dystysgrif wedi'i hatal. Gallai hyn gynnwys rhywfaint o ailhyfforddi.
186. Dylid cyfeirio unrhyw gŵyn am arfer y cyflogwr at y naill neu'r llall o'r cymdeithasau neu'r credydwr sy'n cyfarwyddo y mae'n gweithredu ar ei ran.
187. Bydd rheoliadau'n cael eu datblygu yn dilyn yr ymgynghoriad hwn a fydd yn disgrifio'r broses yn fwy manwl.

Mesurau annibynnol / ategol

188. Yn ogystal â'r uchod i gyd, ceir mesurau ategol annibynnol. Mae'r rhain yn cynnwys yr Ombwdsmon Llywodraeth Leol, yr Ombwdsmon Seneddol a'r Gwasanaeth Iechyd, ac Aelodau Seneddol neu Weinidog y Llywodraeth.
189. Mae gan yr Ombwdsmon Llywodraeth Leol rôl benodol os yw'r ddyled sy'n cael ei gorfodi gan yr asiant gorfodi yn ddyled awdurdod lleol. Ond, bydd yn dod yn gysylltiedig â'r gŵyn dim ond os bydd y mater heb ei ddatrys gan yr awdurdod lleol.

C53 Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar y strategaeth ar gyfer delio â chwynion? Os nad ydych, darparwch gynigion eraill a dadl i gefnogi hynny.

9 Gorchymyn Awdurdodaeth y Llys Sirol a'r Uchel Lys 1991

190. Mae penodau 4 i 8 yn disgrifio cynlluniau'r Llywodraeth i weddnewid y ffordd y mae beiliaid yn gweithredu. Fel rhan o'n cynnig i annog mwy o hyblygrwydd yng nghasgliadau beiliaid, mae'r bennod hon yn gofyn am farn gynnar am newidiadau posibl yn y dyfodol i gynnig rhagor o ddewis i gredydwyr yn awdurdodaeth gorfodi o'r llys sirol.
191. Dan y system bresennol, mae gorfodi drwy gyfrwng atafaelu nwyddau (cymryd a gwerthu nwyddau dyledwr er mwyn adennill dyled dyfarniad) yn cael ei gyflawni gan gymysgedd o Swyddogion Gorfodi Uchel Lys (yng nghyswllt gwritiau atafaelu'r Uchel Lys) a staff a gyflogir yn uniongyrchol gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (yng nghyswllt gwarantau i atafaelu neu atafaelebau gan y llys sirol).
192. Yng nghyswllt gorfodi drwy gyfrwng gwrit neu warant i atafaelu, rydym yn ceisio barn ynghylch a ddylid rhoi mwy o ddewis i'r credydwr o ran ymhle i orfodi dyled y dyfarniad. Ar hyn o bryd, dim ond os yw'r ddyled rhwng £600 a £4999 y mae credydwr yn gallu dewis ymhle i orfodi.
193. Os yw'r ddyled am £5,000 neu fwy mae'n rhaid ei gorfodi yn yr Uchel Lys gan Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys. Os yw'r ddyled am lai na £600 rhaid ei gorfodi yn y llys sirol gan feiliaid y llys sirol.
194. Eithriad i'r uchod yw dyfarniad llys sirol yng nghyswllt dyled dan y Ddeddf Credyd Defnyddwyr, y ceir ei gorfodi yn y llys sirol yn unig, hyd yn oed os yw gwerth y dyfarniad yn fwy na £600. Mae dyledion dan y Ddeddf Credyd Defnyddwyr yn destun cyfraddau llog contractiol ac mae statud a chyfraith achosion ill dau yn gwahardd gorfodi yn yr Uchel Lys fel nad yw dyledwyr yn gorfod talu llog cyfansawdd.
195. Yn ogystal, gall dyfarniadau gan Dribiwnlysoedd Cyflogaeth a setliadau a frocerir gan ACAS gael eu gorfodi gan Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys hyd yn oed os yw'r gwerth yn llai na £600.
196. O ran y drefn yn y llys sirol am warant i atafaelu (atafaeleb), rhaid i'r credydwr wneud cais ynghyd â'r ffi llys berthnasol. Rhaid i feili'r llys sirol orfodi'r warant a chasglu'r ddyled yn ogystal â ffi'r llys oddi wrth y dyledwr. Yn gyffredinol, does dim costau ychwanegol yn berthnasol.
197. O ran y drefn ar gyfer gorfodi gan Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys, rhaid gwneud cais i drosglwyddo'r gweithredu i'r Uchel Lys os yw'n ddyfarniad yn y llys sirol. Bydd y credydwr wedyn yn gwneud cais am writ atafaelu. Rhaid i Swyddog Gorfodi'r Uchel llys orfodi'r writ a chasglu'r ddyled, ffi'r llys a'i gostau ef yr ymdrinnir â hwy ym Mhennod 5 y papur hwn.

198. Rydym yn croesawu ymateb gan ddefnyddwyr a defnyddwyr llys ynghylch pa effaith benodol fyddai hyn yn ei chael arnynt hwy.

C54 Ydych chi'n ystyried y dylid diwygio'r gorchymyn awdurdodaeth? Os ydych chi, rhowch fanylion a dadl gefnogol.

10 Asesu Effaith

199. Mae'r Llywodraeth yn ymwybodol o bwysigrwydd ystyried effaith y cynigion hyn ar wahanol grwpiau, gan gyfeirio'n benodol at ddarparwyr gwasanaethau gorfodi a dyledwyr a all fod yn fregus. Mae ein hasesiadau o effaith bosibl y cynigion hyn wedi cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r ddogfen hon.
200. Mae'r wybodaeth a'r data sydd ar gael i asesu effeithiau'r cynigion yn gyfyngedig, yn arbennig mewn perthynas â'r effaith ar i) dyledwyr a ii) y diwydiant. Nod yr ymarfer ymgynghori yw mynd i'r afael â hyn a chael barn ynghylch a yw'r amrediad effeithiau wedi cael ei glustnodi'n gywir, a beth yw maint posibl yr effeithiau hyn. Ond, er mwyn cael dadansoddiad manylach, rhaid cael rhagor o dystiolaeth. Felly mae holiadur wedi'i atodi i'r asesiadau o effaith sy'n dod gyda'r ymgynghoriad hwn. Anogir y rhai sy'n ymateb o'r diwydiant i ymateb i'r holiadur hwn, a darparu tystiolaeth y gellir ei defnyddio i asesu'r effeithiau sy'n deilio o'r cynigion.

C55 Ydych chi'n cytuno ein bod wedi nodi'n gywir yr amrediad effeithiau dan y cynigion yn y papur ymgynghori hwn? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

C56 Ydych chi'n cytuno ein bod wedi nodi'n gywir maint yr effeithiau dan y cynigion hyn? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

C57 Oes gennych chi unrhyw dystiolaeth o effeithiau cydraddoldeb nad ydynt wedi cael eu pennu yn yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb? Os oes, sut gellid eu lliniaru?

11 Y Camau Nesaf

201. Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben am 12:00 hanner dydd ar 14 Mai 2012. Ar ôl yr ymgynghoriad, rydym yn bwriadu cyhoeddi ein hymateb ffurfiol yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Yn y lle cyntaf, bydd angen i ni esbonio a chadarnhau effeithiau llawn y cynigion y bwriadwn eu rhoi ar waith ar fusnes, defnyddwyr a'r trydydd sector. Bydd yr ymateb yn rhoi manylion llawn yr holl gynigion y bwriadwn fwrw ymlaen â hwy a gosod amseroedd posibl ar gyfer eu cyflwyno.

Holiadur

Byddem yn croesawu ymateb i'r cwestiynau canlynol a ofynnir yn y papur ymgynghori hwn.

- C1** Ydych chi'n cytuno â chynnwys y Safonau Cenedlaethol? Os nad ydych chi, a wnewch chi ddarparu cynigion i'w cynnwys neu ddadl yn erbyn eu cynnwys.
- C2** Ydych chi'n credu bod y gyfraith bresennol a'r Safonau Cenedlaethol diwygiedig ar gyfer Asiantau Gorfodi'n ddigon i ddatrys y problemau yr ydym wedi'u nodi neu a ydych chi'n teimlo bod angen rhagor o ymyrraeth o hyd gan y Llywodraeth fel sy'n cael ei nodi yng ngweddill y papur?
- C3** Ydych chi'n teimlo bod bylchau yn yr ystod gwybodaeth sydd ar gael ar DirectGov? Os ydych chi, a fydddech gystal â darparu cynigion i'w cynnwys.
- C4** Ydych chi'n cytuno na ddylai asiantau gorfodi allu defnyddio grym yn erbyn unigolyn? Os nad ydych chi, esboniwch pam, gan ddarparu dadl i gefnogi hynny a thystiolaeth ynghylch pryd y byddai'n ddefnyddiol.
- C5** Ydych chi'n cytuno bod angen i'r llys gael ei fodloni am rai amodau cyn y bydd yn rhoi'r hawl i ddefnyddio grym rhesymol i gael mynediad i adeilad ac y dylai'r amodau gael eu pennu mewn rheoliadau? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda.
- C6** Ydych chi'n cytuno â'r amodau rhagnodedig sydd wedi'u gosod? Os nad ydych chi, a wnewch chi ddarparu cynigion i'w cynnwys neu ddadl yn erbyn eu cynnwys.
- C7** Ydych chi'n ystyried y dylai asiant gorfodi sy'n gweithredu dyled Uchel Lys neu lys sirol:
- a) orfod gwneud cais i'r llys i ddefnyddio grym rhesymol os bydd rhaid wrth fynd i mewn i unrhyw eiddo busnes; neu
 - b) a ddylai gael pŵer cyffredinol?
- Esboniwch eich rheswm pam, gan ddarparu dadl ategol.
- C8** Ydych chi'n cytuno bod angen i'r llys gael ei fodloni ynghylch rhai amodau cyn y bydd yn rhoi'r hawl i ddefnyddio grym rhesymol i gael ailfynediad i adeilad ac y dylai'r amodau gael eu rhagnodi mewn rheoliadau? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda.
- C9** Ydych chi'n cytuno â'r amodau rhagnodedig sydd wedi'u gosod? Os nad ydych chi, a wnewch chi ddarparu cynigion i'w cynnwys neu ddadl yn erbyn eu cynnwys.

C10 Ydych chi'n ystyried y dylai asiant gorfodi:

- a) orfod gwneud cais i'r llys i ddefnyddio grym rhesymol, os bydd rhaid, wrth fynd i mewn am yr eildro i'r eiddo mewn rhai amgylchiadau; neu
- b) a ddylai gael pŵer cyffredinol?

Esboniwch eich rheswm pam, gan ddarparu dadl ategol.

C11 Ydych chi'n cytuno â'r terfyn amser 12 mis ar gyfer cymryd rheolaeth dros nwyddau? Os nad ydych chi, esboniwch pam, a darparu cyfnod arall ynghyd â dadl ategol.

C12 Ydych chi'n cytuno â'r cyfnod rhybudd lleiaf cyn cymryd rheolaeth dros nwyddau? Os nad ydych chi, esboniwch pam, a darparu dadl arall ategol.

C13 Ydych chi'n cytuno â'r dulliau mynediad ac ailfynediad? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda.

C14 Ydych chi'n cytuno y dylai'r asiant gorfodi allu cael mynediad i eiddo ar unrhyw ddiwrnod? Os na, cynigiwch derfynau gyda dadl i gefnogi.

C15 Ydych chi'n cytuno â'r terfynau amser o 6.00am a 9.00pm ar gyfer cael mynediad i eiddo preswyl llwyr? Os na, cynigiwch derfynau eraill gyda dadl i gefnogi.

C16 Ydych chi'n cytuno y dylai'r asiant gorfodi allu cymryd rheolaeth dros nwyddau ar unrhyw ddiwrnod? Os na, cynigiwch derfynau gyda dadl i gefnogi.

C17 Ydych chi'n cytuno â'r terfynau amser o 6.00am a 9.00pm ar gyfer cymryd rheolaeth dros nwyddau? Os na, cynigiwch derfynau eraill gyda dadl i gefnogi.

C18 Ydych chi'n cytuno y dylid caniatáu i'r asiant gorfodi fwrw ymlaen y tu allan i'r terfyn oriau lle mae'r broses wedi cychwyn yn barod? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda.

C19 Ydych chi'n cytuno â'r amrediad o nwyddau eithriedig? Os nad ydych chi, a fyddech chi gystal â chynnig cynigion i'w cynnwys neu ddadl yn erbyn eu cynnwys.

C20 Ydych chi'n cytuno y dylai'r dyledwr allu awdurdodi rhywun arall i ymrwymo i gytundeb nwyddau dan reolaeth? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda.

C21 Ydych chi'n cytuno y dylai unigolyn sydd mewn awdurdod i bob golwg allu ymrwymo i gytundeb nwyddau dan reolaeth? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda.

C22 Allwch chi ddarparu unrhyw dystiolaeth ddiweddar sy'n cefnogi neu'n herio'r dull ar gyfer grymuso asiantau gorfodi i sicrhau'r eiddo cyfan?

- C23** Ydych chi'n cytuno â'r terfyn amser ar gyfer cadw cerbyd yn ddisymud cyn y bydd yn cael ei symud i'w storio? Os nad ydych chi, esboniwch pam, a darparu cyfnod arall ynghyd â dadl ategol.
- C24** Ydych chi'n cytuno â'r cyfnod sydd wedi'i osod ar gyfer yr isafswm cyfnod cyn y gellir bwrw ymlaen â'r gwerthiant? Os nad ydych chi, esboniwch pam, a darparu cyfnod arall ynghyd â dadl ategol.
- C25** A ddylid cynnwys unrhyw ddulliau gwerthu eraill yn y rheoliadau heblaw am gontract preifat, ceisiadau wedi'u selio neu hysbyseb? Os dylid, rhowch fanylion llawn.
- C26** Ydych chi'n cytuno â'r dull o ddelio â'r elw a wneir o werthu nwyddau? Os na, esboniwch pam, a darparu cynnig arall a dadl i gefnogi hynny.
- C27** A oes unrhyw amgylchiadau eraill lle gellir tybio bod nwyddau wedi'u gadael? Os oes, rhowch fanylion.
- C28** Ydych chi'n ystyried bod angen diffinio bregusrwydd yn y rheoliadau? Os ydych chi, darparwch ddiffiniad ymarferol gyda dadl i gefnogi.
- C29** Ydych chi'n cytuno â'r wybodaeth y bydd yn rhaid i landlord ei darparu er mwyn awdurdodi asiant gorfodi i gymryd rheolaeth dros nwyddau? Os nad ydych chi, esboniwch pam, a darparu rhagor o wybodaeth y dylid ei chynnwys yn eich barn chi.
- C30** Ydych chi'n cytuno â'r isafswm cyfnod rhent o saith niwrnod mewn dyled? Os nad ydych chi, esboniwch pam, a darparu dadl arall ategol.
- C31** Ydych chi'n cytuno â chynnwys y rhybudd i'r is-denant? Os nad ydych chi, esboniwch pam, a darparu rhagor o wybodaeth y dylid ei chynnwys yn eich barn chi.
- C32** Ydych chi'n cytuno â chynnwys yr hysbysiadau a'r rhybuddion? Os nad ydych chi, a fyddech chi gystal â chynnig cynigion i'w cynnwys neu ddadl yn erbyn eu cynnwys.
- C33** Ydych chi'n cytuno bod y set o weithgareddau craidd yn y strwythur costau'n cwmpasu'r holl weithgarwch gorfodi a wneir ni waeth beth yw'r ddyled? Os na, esboniwch pam, a darparu cynnig arall a dadl i gefnogi hynny.
- C34** Ydych chi'n cytuno â grwpio'r gweithgareddau hyn yn gamau? Os na, esboniwch pam, a darparu cynnig arall a dadl i gefnogi hynny.
- C35** Ydych chi'n cytuno bod y gweithgareddau wedi cael eu grwpio'n gywir? Os na, esboniwch pam, a darparu cynnig arall a dadl i gefnogi hynny.
- C36** Ydych chi'n teimlo bod angen dileu? Os ydych chi, a wnewch chi gynnig cynigion ynghylch lefel y dystiolaeth ofynnol i brofi bod iechyd meddwl wedi cyfrannu at ddiffyg ymgysylltiad.

- C37 Ydych chi'n cytuno bod y symiau penodedig sydd wedi'u priodoli i bob cam yn briodol? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda.**
- C38 Ydych chi'n cytuno bod y costau canrannol sydd wedi'u gosod ar gyfer y camau perthnasol yn briodol a bod y trothwy wedi'i osod yn gywir? Os na, esboniwch pam, a darparu cynnig arall a dadl i gefnogi hynny.**
- C39 A oes angen proses costau eithriadol? Os oes, a wnewch chi roi cynigion ar gyfer sut byddai cynllun o'r fath yn gweithredu gan gynnwys y trothwyon ar gyfer proses o'r fath?**
- C40 Ydych chi'n cytuno â'r gwahaniaethau yn y strwythur costau rhwng dyledion Uchel Lys a dyledion heb fod yn rhai Uchel Lys? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda.**
- C41 Ydych chi'n meddwl y bydd y strwythur costau'n cael effaith andwyol ar adennill dyledion mewn achosion Ardrethi Annomestig? Os ydych chi, rhowch fanylion.**
- C42 Ydych chi'n cytuno â'r gorchymyn ar gyfer talu arian pan geir taliadau rhannol? Os na, esboniwch pam, a darparu cynnig arall a dadl i gefnogi hynny.**
- C43 A ddylai'r strwythur costau gael ei ddiweddarau er mwyn ystyried chwyddiant cyn ei weithredu?**
- C44 A ddylai'r strwythur costau gael ei ddiweddarau'n flynyddol drwy ei fynegeo i fesur chwyddiant?**
- C45 Ydy tair blynedd yn gyfnod addas ar gyfer adolygu'r strwythur costau'n llawn a'i addasu efallai? Os na, esboniwch pam, a darparu cynnig arall a dadl i gefnogi hynny.**
- C46 A ydych chi'n ystyried bod opsiynau eraill neu opsiynau llai rheoleiddiol a fyddai'n addas i asiantau gorfodi? Os ydych chi, darparwch gynigion.**
- C47 Ydych chi'n cytuno y dylai'r cais am dystysgrif gael ei wneud gan yr asiant gorfodi yn y llys sy'n lleol i'r ardal lle bydd yn cynnal prif ran ei fusnes? Os na, esboniwch pam, a darparu cynnig arall a dadl i gefnogi hynny.**
- C48 Ydych chi'n cytuno mai Barnwyr Rhanbarth arbenigol ddylai ddelio â cheisiadau am dystysgrif? Os nad ydych, esboniwch pam gan ddarparu dadl i gefnogi hynny.**
- C49 A oes gennych chi unrhyw sylwadau am y naill neu'r llall o'r cynigion sydd wedi'u cyflwyno gan Gymdeithas Parcio Prydain?**
- C50 Ydych chi'n cytuno bod y meini prawf cymhwysedd yn lefel dderbyniol ar gyfer cael mynediad i'r proffesiwn? Os nad ydych chi, esboniwch pam, a darparu dadl arall ategol.**

C51 Ydych chi o'r farn bod yn rhaid cael hyfforddiant gorfodol i sicrhau bod asiant gorfodi'n addas ac yn briodol i ddal tystysgrif? Os na, darparwch gynigion eraill.

C52 Ydych chi o'r farn y dylai asiant gorfodi ymgymryd â rhagor o hyfforddiant neu ddatblygiad ar ôl iddo gael y dystysgrif? Os ydych chi, darparwch gynigion.

C53 Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar y strategaeth ar gyfer delio â chwynion? Os nad ydych, darparwch gynigion eraill a dadl i gefnogi hynny.

C54 Ydych chi'n ystyried y dylid diwygio'r gorchymyn awdurdodaeth? Os ydych chi, rhowch fanylion a dadl gefnogol.

C55 Ydych chi'n cytuno ein bod wedi nodi'n gywir yr amrediad effeithiau dan y cynigion yn y papur ymgynghori hwn? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

C56 Ydych chi'n cytuno ein bod wedi nodi'n gywir maint yr effeithiau dan y cynigion hyn? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

C57 Oes gennych chi unrhyw dystiolaeth o effeithiau cydraddoldeb nad ydynt wedi cael eu pennu yn yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb? Os oes, sut gellid eu lliniaru?

Diolch i chi am gymryd rhan yn yr ymarferiad ymgynghori hwn.

Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i ddweud rhywfaint amdanoch eich hun wrthym

Enw llawn	
Teitl eich swydd neu ym mha swyddogaeth yr ydych yn ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd ayb.)	
Dyddiad	
Enw'r cwmni/sefydliad (os yw'n berthnasol):	
Cyfeiriad	
Cod post	
Os hoffech i ni gydnabod derbyn eich ymateb, rhowch dic yn y blwch	<input type="checkbox"/> (rhowch dic yn y blwch)
Cyfeiriad lle dylid anfon y gydnabyddiaeth, os yw'n wahanol i'r uchod	

Os ydych yn cynrychioli grŵp, nodwch enw'r grŵp os gwelwch yn dda a rhowch grynodedb o'r bobl neu'r sefydliadau yr ydych yn eu cynrychioli.

Manylion cysylltu/Sut i ymateb

Ymatebwch ar-lein erbyn 14 Mai 2012 yn:
www.justice.gov.uk/consultations/consultations.htm

Neu anfonwch eich ymateb dros yr e-bost at:
EnforcementReform.TCE@justice.gsi.gov.uk, neu drwy'r post at Judith Evers yn:
Ministry of Justice, Postpoint 4.23, 4th Floor, 102 Petty France, Llundain SW1H
9AJ.

Cyhoeddi ymatebion

Bwriedir cyhoeddi papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ym mis Hydref 2012. Bydd y papur ymatebion i'w weld ar-lein yn <http://www.justice.gov.uk/index.htm>.

Grwpiau cynrychioliadol

Gofynnir i grwpiau cynrychioliadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau maent yn eu cynrychioli pan fyddant yn ymateb.

Cyfrinachedd

Efallai y bydd gwybodaeth a roddir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn cael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â'r cyfundrefnau mynediad at wybodaeth (Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), Deddf Diogelu Data 1998 (DPA) a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn bennaf).

Os hoffech i'r wybodaeth a roddir gennych gael ei chadw'n gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol, o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, o'r Cod Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef ac sy'n delio, ymhlith pethau eraill, â dyletswyddau cyfrinachedd. Yn wyneb hyn byddai'n ddefnyddiol pe baech yn egluro i ni pam yr ydych yn ystyried yr wybodaeth a roddwyd gennych yn gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn cais am ddatgelu'r wybodaeth byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch eglurhad, ond ni allwn sicrhau y gellir cadw cyfrinachedd ym mhob achos. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhrychir gan eich system TG, yn ddo'i hun, yn cael ei ystyried yn rhwymol gan y Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data ac yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael ei ddatgelu i unrhyw drydydd parti.

Y meini prawf ymgynghori

Mae'r saith maen prawf ymgynghori fel a ganlyn:

1. **Pryd i ymgynghori** – Dylid cynnal ymgynghoriadau ffurfiol ar adeg pan mae modd dylanwadu ar ganlyniad y polisi.
2. **Hyd ymarferion ymgynghori** – Dylai ymgynghoriadau bara am o leiaf 12 wythnos fel rheol, gan ystyried amserlenni hwy pan fydd hynny'n ymarferol ac yn ddoeth.
3. **Eglurder ynglŷn â'r cwmpas a'r effaith** - Dylai dogfennau ymgynghori fod yn glir ynglŷn â'r broses ymgynghori, yr hyn sy'n cael ei gynnig, y gallu i ddylanwadu a chostau a buddiannau disgwylidig y cynigion.
4. **Hygyrchedd ymarferion ymgynghori** – Dylid cynllunio ymarferion ymgynghori i fod yn hygyrch i'r bobl hynny y mae'n fwriad i'r ymarfer eu cyrraedd, ac wedi'u targedu'n glir atynt.
5. **Baich ymgynghori** – Mae'n hanfodol sicrhau bod yr ymgynghoriad yn achosi cyn lleied o faich â phosibl er mwyn i ymgynghoriadau fod yn effeithiol, ac er mwyn sicrhau bod ymgynghoreion yn cyfrannu at y broses.
6. **Ymatebolrwydd ymarferion ymgynghori** - Dylid dadansoddi ymatebion i ymgynghoriad yn ofalus gan roi adborth clir i'r rhai sydd wedi cymryd rhan ar ôl yr ymgynghoriad.
7. **Gallu i ymgynghori** - Dylai swyddogion sy'n cynnal ymgynghoriadau geisio arweiniad ynglŷn â sut i gynnal ymarfer ymgynghori'n effeithiol a rhannu'r hyn y maent wedi'i ddysgu o'r profiad.

Rhaid cynnwys y meini prawf hyn ymhob dogfen ymgynghori.

Manylion cyswllt y Cydgysylltydd Ymgynghori

Mae'n rhaid i'r ymatebion i'r ymgynghoriad gael eu hanfon at y person cyswllt a enwir o dan yr adran Sut i Ymateb.

Ond, os oes gennych chi unrhyw gwynion neu sylwadau am y **broses** ymgynghori, dylech gysylltu â chydgysylltydd ymgynghoriadau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn consultation@justice.gsi.gov.uk.

Neu, gallwch ysgrifennu i'r cyfeiriad isod:

**Ministry of Justice
Consultation Co-ordinator
Better Regulation Unit
Analytical Services
7th Floor, 7:02
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ**

© Hawlfraint y Goron 2012
Cynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Mae'r adroddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill ar gais drwy gysylltu â Steve Wooding dros yr e-bost - EnforcementReform.TCE@justice.gsi.gov.uk